



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 1641 (Cy.156)**

**2006 No. 1641 (W.156)**

## **TAI, CYMRU**

## **HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Gweithdrefn  
Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru)  
2006**

**The Residential Property Tribunal  
Procedure (Wales) Regulations  
2006**

### **NODYN ESBONIADOL**

### **EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn rheoleiddio'r weithdrefn sydd i'w dilyn ar gyfer ceisiadau ac apelau (y cyfeirir atynt ynghyd fel ceisiadau) a wneir i dribiwnlys eiddo preswyl o dan Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") neu o dan Ran 9 o Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985"). Mae'r ceisiadau hyn yn ymwneud â'r darpariaethau, neu'n gysylltiedig â'r darpariaethau, yn y Ddeddf a Deddf 1985 ynghylch pwerau awdurdod tai lleol mewn perthynas â chyflwr tai a gorfodi safonau tai, yn cynnwys gweithredu adfer brys; gorchmynion dymchwel a chlirio slymiau; rheoleiddio tai amlfeddiannaeth; rheoli anheddau ac anheddau gweigion; a gorlenwi.

Mae adrannau 229 a 230 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyfansoddiad tribiwnlysoedd a'u pwerau cyffredinol. Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2004 yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â gweithdrefn tribiwnlysoedd eiddo preswyl ac yn dynodi cwrpas y rheoliadau gweithdrefn hynny.

Mae rheoliad 2 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau. Mae'r diffiniad o "ymatebydd" ("*respondent*") yn cyfeirio at is-baragraff (3) o bob paragraff yn yr Atodlen i'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 3 yn dynodi'r achosion y mae'r Rheoliadau'n gymwys iddynt.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r amcan cyffredinol o ymdrin yn deg ag yn gyfiawn â phob cais.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â cheisiadau am estyn yr amser ar gyfer gwneud cais, yn yr achosion hynny pan fo'r Ddeddf yn

These Regulations, which apply in respect of Wales, regulate the procedure to be followed for applications and appeals (jointly referred to as applications) made to a residential property tribunal under the Housing Act 2004 ("the Act") or Part 9 of the Housing Act 1985 ("the 1985 Act"). These applications concern or relate to provisions in the Act and the 1985 Act about powers of a Local Housing Authority ("LHA") in connection with housing conditions and enforcement of housing standards, including emergency remedial action; demolition orders and slum clearance; regulation of houses in multiple occupation; management of dwellings and empty dwellings; and overcrowding.

Sections 229 and 230 of the Act make provision about the constitution of tribunals and their general powers. Schedule 13 to the 2004 Act confers on the National Assembly for Wales power to make regulations relating to the procedure of residential property tribunals and sets out the scope of those procedure regulations.

Regulation 2 defines terms used in the Regulations. The definition of "respondent" ("*ymatebydd*") refers to sub-paragraph (3) of each paragraph in the Schedule to the Regulations.

Regulation 3 specifies the proceedings to which the Regulations apply.

Regulation 4 sets out the overriding objective of dealing fairly and justly with applications.

Regulation 5 makes provision in connection with requests for extension of time to make an application, in those cases where the Act gives a tribunal power to

rhoi'r pŵer i dribiwnlys ganiatáu'r fath estyniad.

Mae rheoliad 6 yn rhoi manylion y wybodaeth sydd i'w chynnwys gyda chais, ac yn pennu dogfennau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau penodol, fel y'u rhestrir yn is-baragraff (2) o bob paragraff yn yr Atodlen i'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 7 yn darparu mewn perthynas â chydabod cais gan dribiwnlys ac anfon hysbysiad at yr ymatebydd sy'n pennu'r dyddiad erbyn pryd y dylai'r ymatebydd anfon ateb i'r tribiwnlys.

Mae rheoliad 8 yn ymdrin ag ateb yr ymatebydd.

Mae rheoliad 9 yn caniatáu i'r tribiwnlys gynnal gwrandawriad llafar ar fyr rybudd pan fo awdurdod tai lleol wedi gwneud cais am awdurdodi gorchymyn rheoli dros dro o dan adran 102(4) neu (7) o'r Ddeddf, a phan ei bod yn ymddangos i'r tribiwnlys ar sail y wybodaeth a gyflwynir gyda'r cais fod amgylchiadau eithriadol penodedig yn bodoli.

Mae rheoliad 10 yn ymdrin â cheisiadau gan berson am gael ymuno fel parti i'r achos.

Mae rheoliad 11 yn pennu'r amgylchiadau pan ellir penderfynu ar y cyd ynglŷn â dau neu ragor o geisiadau gwahanol, neu ynghylch materion penodol sy'n codi mewn ceisiadau gwahanol.

Mae rheoliad 12 yn darparu, pan na fydd y ffi ar gyfer gwneud cais wedi ei thalu o fewn 14 diwrnod, y dylid ystyried fod y cais wedi'i dynnu yn ôl oni bai fod yna sail resymol dros beidio â gwneud hynny.

Mae rheoliad 13 yn galluogi cyflawni'r ddyletswydd i ddarparu dogfen drwy ei darparu i gynrychiolydd parti neu i gynrychiolydd person sydd â buddiant pan ofynnir hynny mewn ysgrifen.

Mae rheoliad 14 yn mynnu fod y tribiwnlys yn sicrhau fod personau sydd â buddiant yn cael eu hysbysu ynghylch y cais ac yn derbyn esboniad ynghylch y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gael ymuno fel parti.

Mae rheoliad 15 yn ymdrin â dosbarthu dogfennau perthnasol gan y tribiwnlys.

Mae rheoliadau 16 a 17 yn ymdrin â phwerau'r tribiwnlys i orchymyn darparu gwybodaeth a dogfennau a gyda methiant i gydymffurfio â gorchymyn o'r fath.

Mae rheoliad 18 yn galluogi'r tribiwnlys i benderfynu ynglŷn â chais heb wrandawriad llafar. Rhaid rhoi rhybudd o 14 diwrnod o leiaf i'r partïon o'r bwriad i weithredu yn y ffordd hon. Mae gan y partïon yr hawl i ofyn am wrandawriad llafar. Caiff un aelod cymwysedig o'r panel benderfynu ei bod yn briodol cynnal gwrandawriad llafar.

permit such an extension.

Regulation 6 gives details of the information to be included with an application, and specifies additional documents for particular applications as set out in subparagraph (2) of each paragraph of the Schedule to the Regulations.

Regulation 7 makes provision in respect of the tribunal acknowledging an application and sending to the respondent copy documents and a notice specifying the date by which the respondent should reply to the tribunal.

Regulation 8 deals with the respondent's reply.

Regulation 9 permits the tribunal to hold an oral hearing at short notice where an LHA has applied for authorisation of an interim management order under section 102(4) or (7) of the Act, and where it appears to the tribunal on the basis of information accompanying the application that specified exceptional circumstances exist.

Regulation 10 deals with applications to be joined as a party to the proceedings.

Regulation 11 specifies circumstances where two or more separate applications, or particular issues arising in separate applications, may be determined together.

Regulation 12 provides that where an application fee is unpaid for 14 days, the application is to be treated as withdrawn unless there are reasonable grounds not to do so.

Regulation 13 enables the duty to supply a document to be satisfied by supplying it to a party's or interested person's representative where this is requested in writing.

Regulation 14 requires the tribunal to ensure that interested persons are notified of the application together with an explanation of the procedure for applying to be joined as a party.

Regulation 15 deals with distribution of relevant documents by the tribunal.

Regulations 16 and 17 deal with the tribunal's powers to order the supply of information and documents and with failure to comply with such an order.

Regulation 18 enables the tribunal to determine an application without an oral hearing. A minimum of 14 days' notice must be given to the parties of the intention to proceed in this way. The parties have a right to request an oral hearing. A single qualified member of the panel may decide that an oral hearing is appropriate.

Mae rheoliad 19 yn darparu ar gyfer gorchmynion dros dro, heblaw yn achos penderfynu ynghylch cais o dan adran 102(4) neu (7) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 20 yn gwneud darpariaeth weithdrefnol mewn perthynas â chyfarwyddiadau o dan bŵer cyffredinol y tribiwnlys yn adran 230(2) o Ddeddf 2004.

Mae rheoliad 21 yn ymdrin ag archwilio'r fangre a'i chyffiniau.

Mar rheoliad 22 yn darparu ar gyfer rhoi tystiolaeth arbenigol gerbron y tribiwnlys.

Mae rheoliad 23 yn galluogi'r tribiwnlys i gynnal cynhadledd rheoli achos (a ddiffinnir fel ei bod yn cynnwys adolygiad cyn treial) gyda rhybudd o ddim llai na 14 diwrnod i'r partion, neu gyfnod byrrach os bydd y partion yn cytuno.

Mae rheoliad 24 yn rhoi manylion y gweddill o bwerau rheoli achos y tribiwnlys. Mae rheoliad 24(1)(a) yn galluogi'r tribiwnlys i estyn yr amser a bennir yn y Rheoliadau ar gyfer cyflawni'r gwahanol gamau yn yr achos.

Mae rheoliad 25 yn ymdrin â hysbysu ynghylch dyddiad, amser a lleoliad gwrandawriad, ac mae rheoliad 26 yn rhoi'r pŵer i'r tribiwnlys i ohirio gwrandawriad.

Mae rheoliad 27 yn nodi pwerau'r tribiwnlys yn ystod gwrandawriad ac mae rheoliad 28 yn darparu ar gyfer o dan ba amodau y gellir cynnal gwrandawriad yn breifat fel eithriad i'r rheol gyffredinol y dylid cynnal gwrandawriadau'n gyhoeddus.

Mae rheoliad 29 yn nodi'r personau sydd â'r hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawriadau a gynhelir yn breifat ac yn ystod trafodaethau'r tribiwnlys ar gyfer penderfynu ynghylch y cais.

Mae rheoliad 30 yn galluogi'r tribiwnlys i fwrw ymlaen â gwrandawriad yn absenoldeb parti sy'n methu ag ymddangos.

Mae rheoliad 31 yn nodi sut a phryd y bydd y tribiwnlys yn cyhoeddi ac yn cofnodi penderfyniadau a'r rhesymau drostynt.

Mae rheoliad 32 yn darparu na chaiff y tribiwnlys ddyfarnu costau o dan ei bwerau a gynhwysir ym mharagraff 5 o Atodlen 13 i Ddeddf 2004 heb ganiatáu'r hawl i'r parti dan sylw gyflwyno sylwadau. Uchafswm y costau y gellir eu dyfarnu yw £500.

Mae rheoliad 33 yn pennu sut y gellir tynnu cais yn ôl yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ac yn pennu'r amgylchiadau pryd y mae angen caniatâd y tribiwnlys i dynnu cais yn ôl.

Mae rheoliad 34 yn darparu ar gyfer gorfodi penderfyniad tribiwnlys yn y llys sirol, gyda chaniatâd y llys.

Regulation 19 makes provision for interim orders, other than in the case of determination of an application under section 102(4) or (7) of the Act.

Regulation 20 makes procedural provision in respect of directions under the tribunal's general power in section 230(2) of the 2004 Act.

Regulation 21 deals with inspection of the premises and its neighbourhood.

Regulation 22 makes provision for adducing expert evidence to the tribunal.

Regulation 23 enables the tribunal to hold a case management conference (which is defined to include a pre-trial review) on not less than 14 days' notice to the parties, or a shorter period if agreed by the parties.

Regulation 24 gives details of the tribunal's remaining case management powers. Regulation 24(1)(a) allows it to extend the time specified in the Regulations for various steps in the action.

Regulation 25 deals with giving notice appointing the date, time and place of a hearing, and regulation 26 gives the tribunal power to postpone a hearing.

Regulation 27 sets out the tribunal's powers at a hearing, and regulation 28 makes provision as to when a hearing may be held in private as an exception to the general rule that it should be held in public.

Regulation 29 sets out the persons who are entitled to be present at hearings held in private and at the tribunal's deliberations to determine the application.

Regulation 30 enables the tribunal to proceed with a hearing in the absence of a party who fails to appear.

Regulation 31 sets out how and when the tribunal will give and record decisions and reasons.

Regulation 32 provides that the tribunal must not award costs under its powers contained in paragraph 5 of Schedule 13 to the 2004 Act without giving the party concerned the opportunity to make representations. Costs awarded may not exceed £500.

Regulation 33 specifies how an application may be withdrawn in whole or part, and stipulates circumstances in which permission of the tribunal is required for withdrawal of an application.

Regulation 34 provides for a decision of a tribunal to be enforced in the county court, with the court's leave.

Mae rheoliad 35 yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â cheisiadau i dribiwnlys eiddo preswyl am ganiatâd i apelio i'r Tribiwnlys Tiroedd.

Mae rheoliad 36 yn mynnu fod y tribiwnlys yn gwneud y trefniadau priodol pan fo ar unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn yr achos angen gwasanaeth cyfieithu, dehongli, neu gymorth arall i'w galluogi i gyfranogi'n effeithiol yn yr achos.

Mae rheoliad 37 yn pennu'r gofynion ar gyfer darparu hysbysiadau neu ddogfennau y mae'r Rheoliadau'n awdurdodi eu darparu. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys yr amgylchiadau dan y rhai y bydd cyfathrebu drwy ffacs neu gyfathrebu electronig, megis e-bost, neu gan wasanaeth dosbarthu preifat, megis Cyfnewid Dogfennau, yn dderbyniol.

Mae rheoliad 38 yn darparu os yw'r amser a ddynodir gan y Rheoliadau hyn ar gyfer cyflawni unrhyw weithred yn dod i ben ar benwythnos neu ddiwrnod o wyliau cyhoeddus, y bydd y weithred wedi'i chyflawni mewn pryd os y'i gwneir ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl hynny.

Mae rheoliad 39 yn rhoi i'r tribiwnlys y pŵer i wrthod yn rhannol neu'n gyfan gwbl unrhyw gais a ystyrir yn wacaw, yn flinderus, neu mewn unrhyw ffordd arall yn gamddefnydd o broses y tribiwnlys, ar ôl rhoi rhybudd o 21 diwrnod o leiaf i'r ceisydd.

Mae rheoliad 40 yn datgan na fydd afreoleidd-dra ar ran y partïon ynddo'i hun yn peri fod yr achos yn ddi-rym.

Mae rheoliad 41 yn caniatáu atgynhyrchu llofnod yn fecanyddol neu mewn ffordd arall, ar yr amod yr ychwanegir enw'r person sy'n llofnodi o dan y llofnod mewn modd sy'n sicrhau y gellir adnabod y person.

Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau'n rhestru'r ceisiadau y gellir eu gwneud i dribiwnlys eiddo preswyl ac yn pennu ar gyfer pob un y dogfennau ychwanegol y mae'n rhaid eu cynnwys gyda chais, ac yn nodi'r personau y gellir eu henwi fel ymatebwyr i'r chais.

Pennir y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer rhai ceisiadau penodol i dribiwnlys eiddo preswyl yn Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1642 (W.157)), sy'n dod i rym ar yr un dyddiad â'r Rheoliadau hyn.

Paratowyd arfarniad rheoliadol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, ac mae ar gael o Uned y Sector Preifat, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn 02920825111; e-bost: [HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk](mailto:HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk)).

Regulation 35 contains provisions relating to requests to a residential property tribunal for leave to appeal to the Lands Tribunal.

Regulation 36 requires the tribunal to make appropriate arrangements where any person taking part in the proceedings requires translation, interpretation, or other assistance to enable effective participation in the proceedings.

Regulation 37 sets out the requirements for the supply of notices or documents authorised by the Regulations to be supplied. The provision includes the circumstances in which communication by fax or electronic communication, such as email, or by a private delivery service, such as Document Exchange, will be acceptable.

Regulation 38 provides that if the time specified by these Regulations for doing any act expires on a weekend or public holiday, the act will be in time if done on the next working day.

Regulation 39 gives the tribunal power to dismiss in whole or in part any application considered frivolous, vexatious, or otherwise an abuse of process after giving notice of at least 21 days to the applicant.

Regulation 40 states that irregularities by parties will not in themselves render the proceedings void.

Regulation 41 allows mechanical or other reproduction of a signature, so long as the name of the person signing is added underneath in a way which enables the person to be identified.

The Schedule to the Regulations lists applications which may be made to a residential property tribunal and in respect of each specifies the additional documents which must be included with an application, and identifies the persons who may be named as respondents to the application.

Fees payable for certain applications to a residential property tribunal are specified in The Residential Property Tribunal (Fees) (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1642 (W.157)), which come into force on the same date as these Regulations.

A regulatory appraisal has been carried out in connection with these Regulations and is available from the Private Sector Unit, Department for Social Justice and Regeneration, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (telephone 02920825111; email [HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk](mailto:HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk)).

## 2006 Rhif 1641 (Cy.156)

## 2006 No. 1641 (W.156)

## TAI, CYMRU

## HOUSING, WALES

Rheoliadau Gweithdrefn  
Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru)  
2006The Residential Property Tribunal  
Procedure (Wales) Regulations  
2006*Wedi'u gwneud* 20 Mehefin 2006*Made* 20 June 2006*Yn dod i rym* 23 Mehefin 2006*Coming into force* 23 June 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 250(2)(a) o Ddeddf Tai 2004 ac Atodlen 13 i'r Ddeddf honno(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by section 250(2)(a) of and Schedule 13 to the Housing Act 2004(1).

**Enwi a chychwyn**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006.

**Title and commencement**

1.-(1) The title of these Regulations is The Residential Property Tribunal Procedure (Wales) Regulations 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Mehefin 2006.

(2) These Regulations come into force on 23 June 2006.

**Dehongli**

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "awdurdod tai lleol" ("*LHA*") yw'r awdurdod tai lleol(2);

ystyr "cais" ("*application*") yw cais neu apêl i dribiwnlys o dan y Ddeddf neu o dan Ran IX o Ddeddf 1985 ac mae i "ceisydd" ("*applicant*") ystyr sy'n cyfateb i hynny;

ystyr "cais am awdurdodi gorchymyn rheoli dros dro" ("*IMO authorisation application*") yw cais am awdurdodi gwneud gorchymyn rheoli dros dro(3);

ystyr "cynhadledd rheoli achos" ("*case management conference*") yw adolygiad cyn treial neu unrhyw gyfarfod arall a gynhelir gan dribiwnlys i'r diben o reoli'r achos mewn perthynas

**Interpretation**

2. In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Housing Act 2004;

"the 1985 Act" ("*Deddf 1985*") means the Housing Act 1985(2);

"application" ("*cais*") means an application or appeal to a tribunal under the Act or Part IX of the 1985 Act and "applicant" ("*ceisydd*") bears a corresponding meaning;

"case management conference" ("*cynhadledd rheoli achos*") means a pre-trial review or any other meeting held by a tribunal for the purpose of managing the proceedings in respect of an

(1) 2004 p.34. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan Atodlen 13, mewn perthynas â Chymru, wedi'i roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn perthynas â Lloegr, i'r Ysgrifennydd Gwladol, *gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" yn adran 261 o Ddeddf Tai 2004.

(2) Am ystyr "local housing authority" *gweler* adran 261(4) o'r Ddeddf.

(3) Am ystyr "interim management order" *gweler* adran 101(3) o'r Ddeddf, ac ar gyfer awdurdodiadau i wneud gorchymyn o'r fath, *gweler* adran 102(4) a (7).

(1) 2004 c.34. The power to make regulations under Schedule 13 is, in relation to Wales, conferred on the National Assembly for Wales and in relation to England, on the Secretary of State, *see* the definition of "appropriate national authority" in section 261 of the Housing Act 2004.

(2) 1985 c.68.

â chais;

ystyr "datganiad o resymau" ("*statement of reasons*") yw datganiad o resymau a baratwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan adran 8 o'r Ddeddf (rhesymau dros y penderfyniad i gymryd camau gorfodi);

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Tai 1985(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004;

ystyr "mangre" ("*premises*") yw'r annedd neu'r adeilad y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

ystyr "person sydd â buddiant" ("*interested person*") mewn perthynas â chais penodol yw-

- (a) person heblaw'r ceisydd a fyddai wedi bod â'r hawl o dan y Ddeddf neu o dan Ddeddf 1985 (yn ôl y digwydd) i wneud y cais,
- (b) person y mae'n rhaid i'r ceisydd ei hysbysu ynghylch y cais yn unol â'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf-
  - (i) adran 73(7);
  - (ii) adran 96(7);
  - (iii) paragraff 11(2) o Atodlen 1; neu
  - (iv) paragraff 14(2) o Atodlen 3;
- (c) person y mae'n rhaid i'r tribiwnlys roi iddo'r cyfle i gael ei glywed yn unol â'r darpariaethau canlynol-
  - (i) adran 34(4) o'r Ddeddf; neu
  - (ii) adran 317(2) o Ddeddf 1985;
- (ch) yr awdurdod tai lleol pan nad yw'n barti i'r cais;

ystyr "y Rheoliadau Ffioedd" ("*the Fees Regulations*") yw Rheoliadau Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006(2);

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw tribiwnlys eiddo preswyl, ac ystyr "y tribiwnlys" ("*the tribunal*") mewn perthynas â chais yw'r tribiwnlys sydd i benderfynu ar y cais.

ystyr "yr ymatebydd" ("*the respondent*") mewn perthynas â chais y mae paragraff yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn berthnasol iddo, yw'r person neu'r personau, neu un o'r personau, a bennir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw.

application;

"the Fees Regulations" ("*y Rheoliadau Ffioedd*") means the Residential Property Tribunals (Fees) (Wales) Regulations 2006(1);

"IMO authorisation application" ("*cais am awdurdodi gorchymyn rheoli dros dro*") means an application for authorisation to make an interim management order(2);

"interested person" ("*person sydd â buddiant*") means in relation to a particular application-

- (a) a person other than the applicant who would have been entitled under the Act or the 1985 Act (as the case may be) to make the application,
- (b) a person to whom notice of the application must be given by the applicant in accordance with the following provisions of the Act-
  - (i) section 73(7);
  - (ii) section 96(7);
  - (iii) paragraph 11(2) of Schedule 1; or
  - (iv) paragraph 14(2) of Schedule 3;
- (c) a person to whom the tribunal must give the opportunity of being heard in accordance with the following provisions-
  - (i) section 34(4) of the Act; or
  - (ii) section 317(2) of the 1985 Act;
- (d) the LHA where it is not a party to the application;

"LHA" ("*awdurdod tai lleol*") means the local housing authority(3);

"premises" ("*mangre*") means the dwelling or building to which the application relates;

"the respondent" ("*yr ymatebydd*") means, in respect of an application to which a paragraph of the Schedule to these Regulations applies, the person or persons, or one of the persons, specified in sub-paragraph (3) of that paragraph;

"statement of reasons" ("*datganiad o resymau*") means a statement of reasons prepared by the LHA under section 8 of the Act (reasons for decision to take enforcement action); and

"tribunal" ("*tribiwnlys*") means a residential property tribunal, and "the tribunal" ("*y tribiwnlys*") in relation to an application means the tribunal by which the application is to be determined.

---

(1) 1985 p.68.

(2) 2006/1642 (W.157)

---

(1) 2006/1642 (W.157)

(2) For the meaning of "interim management order" *see* section 101(3) of the Act, and for authorisations to make such an order *see* section 102(4) and (7).

(3) For the meaning of "local housing authority" *see* section 261(4) of the Act.

## Cymhwys

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys ar gyfer achosion mewn tribiwnlysoedd eiddo preswyl ar gyfer penderfynu ar geisiadau'n ymwneud â mangreodded yng Nghymru a wneir-

- (a) o dan y Ddeddf;
- (b) o dan adran 318(1) o Ddeddf 1985 yn achos ceisiadau a wneir ar 23 Mehefin 2006 neu ar ôl hynny; neu
- (c) o dan unrhyw un o adrannau 269(1), 272(1) neu (2)(a), 272(2)(b), neu 317(1) o Ddeddf 1985 yn achos gorchmynion dymchwel a wneir ar 23 Mehefin 2006 neu ar ôl hynny.

## Yr amcan cyffredinol

4.-(1) Pan fo tribiwnlys-

- (a) yn gweithredu unrhyw bŵer o dan y Rheoliadau hyn, neu
- (b) yn dehongli unrhyw reoliad,

rhaiddo geisio gweithredu'r amcan cyffredinol o ymdrin yn deg ac yn gyfiawn gyda cheisiadau y mae i benderfynu arnynt.

(2) Mae ymdrin yn deg ac yn gyfiawn gyda chais yn cynnwys-

- (a) ymdrin â'r cais mewn ffyrdd sy'n gymesur â chymhlethdod y materion sy'n codi ynddo ac ag adnoddau'r partïon;
- (b) sicrhau, hyd y mae'n ymarferol, fod y partïon ar yr un gwastad â'i gilydd o safbwynt y weithdrefn a'u bod yn gallu cymryd rhan gyflawn yn yr achos;
- (c) cynorthwyo unrhyw barti gyda chyflwyno achos y parti hwnnw heb argymell pa lwybr y dylai'r parti hwnnw ei ddilyn;
- (ch) defnyddio arbenigedd neilltuol y tribiwnlys yn effeithiol;
- (d) osgoi oedi, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion dan sylw.

## Gofyn am estyn yr amser a ganiateir ar gyfer gwneud cais

5.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person yn gofyn i driwnlys am ganiatâd i wneud cais ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn y Ddeddf fel y cyfnod o fewn yr hwn mae'n rhaid gwneud y cais.

(2) Pan wneir cais am ganiatâd o'r fath o dan y rheoliad hwn, rhaid iddo-

- (a) bod mewn ysgrifen;
- (b) rhoi'r rhesymau pam na wnaed y cais cyn diwedd y cyfnod hwnnw ac esbonio unrhyw oedi pellach a fu ers hynny;

## Application

3. These Regulations apply to proceedings of residential property tribunals for determining applications in respect of premises in Wales made-

- (a) under the Act;
- (b) under section 318(1) of the 1985 Act in respect of applications made on or after 23 June 2006; or
- (c) under any of sections 269(1), 272(1) or (2)(a), 272(2)(b), or 317(1) of the 1985 Act in respect of demolition orders made on or after 23 June 2006.

## The overriding objective

4.-(1) When a tribunal-

- (a) exercises any power under these Regulations, or
- (b) interprets any regulation,

it must seek to give effect to the overriding objective of dealing fairly and justly with applications which it is to determine.

(2) Dealing with an application fairly and justly includes-

- (a) dealing with it in ways which are proportionate to the complexity of the issues and to the resources of the parties;
- (b) ensuring, so far as practicable, that the parties are on an equal footing procedurally and are able to participate fully in the proceedings;
- (c) assisting any party in the presentation of that party's case without advocating the course which should be taken by that party;
- (d) using the tribunal's special expertise effectively; and
- (e) avoiding delay, so far as is compatible with proper consideration of the issues.

## Request for extension of time to make an application

5.-(1) This regulation applies where a person makes a request to a tribunal for permission to make an application after the end of the period stipulated in the Act as the period within which the application must be made.

(2) A request to which this regulation applies must-

- (a) be in writing;
- (b) give reasons for the failure to make the application before the end of that period and for any further delay since then;

- (c) cynnwys datganiad fod y person sy'n gwneud y cais yn credu fod yr holl ffeithiau a fynegir yn y cais hwnnw'n wir;
- (ch) bod wedi'i ddyddio a'i lofnodi.

(3) Pan wneir cais am ganiatâd y cyfeirir ato ym mharagraff (1), rhaid i'r ceisydd ar yr un pryd anfon i'r tribiwnlys y cais cyflawn y mae'n gofyn am y caniatâd hwnnw ar ei gyfer.

### Manylion cais

6.-(1) Rhaid i gais fod mewn ysgrifen a rhaid iddo gynnwys y manylion canlynol-

- (a) enw a chyfeiriad y ceisydd;
- (b) enw a chyfeiriad yr ymatebydd pan fydd y ceisydd yn gwybod y manylion hynny neu, os nad yw'n eu gwybod, disgrifiad o gysylltiad yr ymatebydd â'r fangre;
- (c) cyfeiriad y fangre;
- (ch) cysylltiad y ceisydd â'r fangre;
- (d) rhesymau'r ceisydd dros wneud y cais, gan gynnwys pa rwymedi a geisir;
- (dd) pan fo'r ceisydd yn gwybod hynny, enw a chyfeiriad unrhyw berson sydd â buddiant;
- (e) datganiad fod y ceisydd yn credu fod y ffeithiau a fynegir yn y cais yn wir;
- (f) ar gyfer pob cais y mae paragraff yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo, y dogfennau a bennir yn is-baragraff (2) o'r paragraff hwnnw.

(2) Gellir hepgor unrhyw rai o'r manylion sy'n ofynnol o dan baragraff (1) neu liniaru'r gofynion ar eu cyfer, os yw'r tribiwnlys wedi'i fodloni-

- (a) bod y manylion a'r dogfennau a gynhwysir gyda chais yn ddigonol i sefydlu bod y cais yn un y gellir ei wneud i dribiwnlys; a
- (b) na fyddir felly'n rhagfarnu, ac na fydd tebygolrwydd o ragfarnu, achos unrhyw barti i'r cais.

(3) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel(1) weithredu'r pŵer a roddir o dan baragraff (2).

### Cydnabod derbyn cais a hysbysu ynghylch cais gan dribiwnlys

7.-(1) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl derbyn y cais, rhaid i'r tribiwnlys-

- (a) anfon cydnabyddiaeth i'r ceisydd fod y cais wedi'i dderbyn; a
- (b) anfon copi o'r cais ac o bob dogfen a ddaeth gydag ef i'r ymatebydd.

- (c) include a statement that the person making the request believes that the facts stated in it are true; and
- (d) be dated and signed.

(3) Where a request mentioned in paragraph (1) is made, the applicant must at the same time send the completed application to which the request relates to the tribunal.

### Particulars of application

6.-(1) An application must be in writing and must include the following particulars-

- (a) the applicant's name and address;
- (b) the name and address of the respondent where known to the applicant or, where not known, a description of the respondent's connection with the premises;
- (c) the address of the premises;
- (d) the applicant's connection with the premises;
- (e) the applicant's reasons for making the application including the remedy sought;
- (f) where known to the applicant, the name and address of any interested person;
- (g) a statement that the applicant believes that the facts stated in the application are true; and
- (h) in respect of each application to which a paragraph in the Schedule to these Regulations applies, the documents specified in sub-paragraph (2) of that paragraph.

(2) Any of the particulars required by paragraph (1) may be dispensed with or relaxed if the tribunal is satisfied that-

- (a) the particulars and documents included with an application are sufficient to establish that the application is one which may be made to a tribunal; and
- (b) no prejudice will be, or is likely to be, caused to any party to the application.

(3) A single qualified member of the panel(1) may exercise the power conferred by paragraph (2).

### Acknowledgement and notification of application by tribunal

7.-(1) As soon as practicable after receiving the application, the tribunal must-

- (a) send an acknowledgement of receipt to the applicant; and
- (b) send a copy of the application and of each document accompanying it to the respondent.

(1) Am ddiffiniad "single qualified member of the panel" gweler paragraffau 6(2) i (4) o Atodlen 13 i Ddeddf Tai 2004.

(1) For "single qualified member of the panel" see paragraph 6(2) to (4) of Schedule 13 to the Housing Act 2004.



(2) Heblaw mewn achos y mae rheoliad 9 yn gymwys iddo, rhaid i'r tribiwnlys hefyd anfon at yr ymatebydd hysbysiad sy'n pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r ymatebydd anfon yr ateb a grybwyllir yn rheoliad 8.

(3) Ni chaiff y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fod yn llai na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y'i gwnaed.

### **Ateb gan yr ymatebydd**

**8.-(1)** Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo ymatebydd yn derbyn yr hysbysiad a grybwyllir yn rheoliad 7(2).

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r ymatebydd anfon i'r tribiwnlys erbyn y dyddiad a ddynodir yn yr hysbysiad hwnnw ateb ysgrifenedig yn cydnabod iddo dderbyn y copïau o ddogfennau a anfonwyd yn unol â rheoliad 7(1)(b) ac yn datgan-

- (a) pa un ai a yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r cais ai peidio;
- (b) pan na fyddant eisoes wedi'u cynnwys yn y cais, enw a chyfeiriad pob person sydd â buddiant y mae'r ymatebydd yn gwybod amdanynt;
- (c) y cyfeiriad y dylid anfon dogfennau iddo at ddibenion yr achos.

### **Ceisiadau brys am awdurdodi gorchymyn rheoli dros dro**

**9.-(1)** Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod tai lleol yn gofyn i dribiwnlys ymdrin â chais am awdurdodi gorchymyn rheoli dros dro fel mater brys.

(2) Pan ymddengys i'r tribiwnlys, ar sail y wybodaeth a gyflwynir gyda'r cais, fod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) yn bodoli, caiff orchymyn cynnal gwrandawriad llafar ("gwrandawriad llafar brys") heb gydymffurfio â'r gofynion hysbysu yn rheoliad 25.

(3) Yr amgylchiadau eithriadol yw-

- (a) bod yna fygythiad uniongyrchol i iechyd a diogelwch meddianwyr y tŷ neu i bersonau sy'n meddiannu neu sydd ag ystâd neu fuddiant mewn unrhyw fangre yng nghyffiniau'r tŷ; a
- (b) y bydd yr awdurdod tai lleol drwy wneud y gorchymyn rheoli dros dro cyn gynted ag y bo modd (ar y cyd, pan fo hynny'n gymwys, â pha bynnag fesurau eraill ag y mae'r awdurdod tai lleol yn bwriadu eu gweithredu) yn gallu cymryd camau priodol yn syth i atal neu i leihau'r bygythiad yn sylweddol.

(2) Except in a case to which regulation 9 applies, the tribunal must also send to the respondent a notice specifying the date by which the respondent must send the reply mentioned in regulation 8.

(3) The date specified in the notice must not be less than 14 days after the date specified in the notice as the date on which it was made.

### **Reply by respondent**

**8.-(1)** This regulation applies where a respondent receives the notice mentioned in regulation 7(2).

(2) Where this regulation applies the respondent must by the date specified in that notice send to the tribunal a written reply acknowledging receipt of the copy documents sent in accordance with regulation 7(1)(b) and stating-

- (a) whether or not the respondent intends to oppose the application;
- (b) where not already included in the application, the name and address of each interested person known to the respondent; and
- (c) the address to which documents should be sent for the purposes of the proceedings.

### **Urgent IMO authorisation applications**

**9.-(1)** This regulation applies where the LHA requests a tribunal to deal with an IMO authorisation application as a matter of urgency.

(2) Where it appears to the tribunal, on the basis of information accompanying the application, that the exceptional circumstances mentioned in paragraph (3) exist, it may order an oral hearing (an "urgent oral hearing") to be held without complying with the notice requirements of regulation 25.

(3) The exceptional circumstances are that-

- (a) there is an immediate threat to the health and safety of the occupiers of the house or to persons occupying or having an estate or interest in any premises in the vicinity of the house; and
- (b) by making the interim management order as soon as possible (together where applicable with such other measures as the LHA intends to take) the LHA will be able to take immediate appropriate steps to arrest or significantly reduce the threat.

(4) Rhaid i'r tribiwnlys hysbysu'r partiön a phob person sydd â buddiant y mae ei enw a'i gyfeiriad wedi'u hysbysu iddo-

- (a) bod y cais yn cael ei drin fel mater brys o dan y rheoliad hwn;
- (b) o'r rhesymau pam yr ymddengys i'r tribiwnlys bod yr amgylchiadau eithriadol yn bodoli;
- (c) ynghylch unrhyw ofyniad y mae'n rhaid i barti ei fodloni cyn y gwrandawriad
- (ch) o'r dyddiad y cynhelir y gwrandawriad llafar brys.

(5) Ni chaiff dyddiad y gwrandawriad fod yn llai na 4 diwrnod ar ôl y dyddiad pryd yr anfonir yr hysbysiad ynghylch y gwrandawriad llafar brys.

(6) Yn y gwrandawriad llafar brys, rhaid i'r tribiwnlys-

- (a) penderfynu ar y cais os yw wedi'i fodloni pan glyw'r dystiolaeth fod yr amgylchiadau eithriadol yn bodoli; neu
- (b) os nad yw wedi'i fodloni felly-
  - (i) gohirio'r achos; a
  - (ii) rhoi pa bynnag gyfarwyddiadau ag y tyb sy'n briodol.

(7) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel-

- (a) weithredu'r pŵer a roir gan baragraff (2); a
- (b) penderfynu ar ddyddiad y gwrandawriad llafar brys.

(8) Pan fydd tribiwnlys yn gorchymyn gwrandawriad llafar brys, nid yw'r darpariaethau ynghylch hysbysu a gynhwysir yn y rheoliadau canlynol yn gymwys i'r cais-

- (a) rheoliad 21(5) (rhybudd ynghylch archwiliad);
- (b) rheoliad 25(3) a (4) (hysbysu ynghylch gwrandawriad).

### **Cais gan berson i'w drin fel ceisydd neu ymatebydd**

**10.-(1)** Gall person ("y parti posibl") wneud cais i'r tribiwnlys am gael ymuno fel parti i'r achos.

(2) Yn achos unrhyw gais o dan baragraff (1)-

- (a) gellir ei wneud heb rybudd;
- (b) rhaid iddo fod mewn ysgrifen;
- (c) rhaid iddo gynnwys rhesymau dros wneud y cais; ac
- (ch) rhaid iddo bennu pa un ai a yw'r parti posibl yn dymuno cael ei drin-
  - (i) fel ceisydd; neu
  - (ii) fel ymatebydd.

(4) The tribunal must as soon as practicable notify the parties and each interested person whose name and address have been notified to it-

- (a) that the application is being dealt with as a matter of urgency under this regulation;
- (b) of the reasons why it appears to the tribunal that the exceptional circumstances exist;
- (c) of any requirement to be satisfied by a party before the hearing; and
- (d) of the date on which the urgent oral hearing will be held.

(5) The date of the hearing must be not less than 4 days after the date that notification of the urgent oral hearing is sent.

(6) At the urgent oral hearing the tribunal must-

- (a) if it is satisfied upon hearing evidence that the exceptional circumstances do exist, determine the application; or
- (b) if it is not so satisfied-
  - (i) adjourn the hearing; and
  - (ii) give such directions as it considers appropriate.

(7) A single qualified member of the panel may-

- (a) exercise the power conferred by paragraph (2); and
- (b) decide the date of the urgent oral hearing.

(8) Where the tribunal orders an urgent oral hearing the notice provisions contained in the following regulations do not apply to the application-

- (a) regulation 21(5) (notice of inspection); and
- (b) regulation 25(3) and (4) (notice of hearing).

### **Request to be treated as an applicant or respondent**

**10.-(1)** A person ("the potential party") may make a request to the tribunal to be joined as a party to the proceedings.

(2) Any request under paragraph (1)-

- (a) may be made without notice;
- (b) must be in writing;
- (c) must give reasons for the request; and
- (d) must specify whether the potential party wishes to be treated as-
  - (i) an applicant; or
  - (ii) a respondent.

(3) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddo benderfynu pa un ai a fydd yn caniatáu ynteu'n gwrthod cais o dan baragraff (1), rhaid i'r tribiwnlys-

- (a) hysbysu'r parti posibl ynghylch y penderfyniad a'r rhesymau drosto; a
- (b) anfon copi o'r hysbysiad i'r partiön sydd wedi'u cynnwys yn yr achos yn barod.

(4) Rhaid trin unrhyw barti posibl y caniateir ei gais o dan baragraff (1) fel ceisydd neu ymatebydd at ddibenion rheoliadau 4, 9, 11, 13 i 37 a 39 i 41.

(5) Yn y rheoliadau a grybwyllir ym mharagraff (4), rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at geisydd neu ymatebydd fel ei fod yn cynnwys person a gaiff ei drin fel ceisydd neu ymatebydd o dan y rheoliad hwn, a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at barti fel ei fod yn cynnwys unrhyw berson o'r fath.

(6) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel ganiatáu neu wrthod cais o dan baragraff (1).

### **Penderfynu ar geisiadau ar y cyd**

11.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo geisiadau wedi'u gwneud ar wahân sydd, ym mam y tribiwnlys-

- (a) yn ymwneud â materion cysylltiedig mewn perthynas â'r un fangre; neu
- (b) wedi'u gwneud mewn perthynas â dau neu ragor o fangreodded y mae gan yr un partiön fuddiant ynddynt ac y mae materion tebyg neu gysylltiedig i'w penderfynu arnynt ynglŷn â hwy.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, gall y tribiwnlys orchymyn y dylid penderfynu ar y cyd ynglŷn â-

- (a) rhai neu bob un o'r geisiadau hynny; neu
- (b) materion neu ystyriaethau penodol sy'n codi yn y geisiadau.

### **Talu ffioedd**

12. Pan na fydd ffi'n sy'n daladwy o dan y Rheoliadau Ffioedd wedi'i thalu o fewn cyfnod o 14 diwrnod o'r dyddiad pryd y derbynnir y cais, dylid trin y cais fel wedi'i dynnu'n ôl oni bai fod y tribiwnlys wedi'i fodloni fod yna sail resymol dros beidio â gwneud hynny.

### **Cynrychiolwyr**

13.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo parti neu berson sydd â buddiant yn gwneud cais ysgrifenedig i'r tribiwnlys am ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau i gynrychiolydd y parti neu'r person sydd â buddiant hwnnw.

(3) As soon as practicable after reaching its decision whether to grant or refuse a request under paragraph (1), the tribunal must-

- (a) notify the potential party of the decision and the reasons for it; and
- (b) send a copy of the notification to the existing parties.

(4) Any potential party whose request under paragraph (1) is granted must be treated as an applicant or respondent for the purposes of regulations 4, 9, 11, 13 to 37 and 39 to 41.

(5) In the regulations mentioned in paragraph (4) any reference to an applicant or a respondent must be construed as including a person treated as such under this regulation, and any reference to a party must be construed as including any such person.

(6) A single qualified member of the panel may grant or refuse a request under paragraph (1).

### **Determining applications together**

11.-(1) This regulation applies where separate applications have been made which in the opinion of the tribunal-

- (a) involve related issues concerning the same premises; or
- (b) are made in respect of two or more premises in which the same parties have interests and as to which similar or related issues fall to be determined.

(2) Where paragraph (1) applies, the tribunal may order-

- (a) some or all of those applications; or
- (b) particular issues or matters raised in the applications,

to be determined together.

### **Payment of fees**

12. Where a fee which is payable under the Fees Regulations is not paid within a period of 14 days from the date on which the application is received, the application is to be treated as withdrawn unless the tribunal is satisfied that there are reasonable grounds not to do so.

### **Representatives**

13.-(1) This regulation applies where a party or an interested person makes a request in writing to the tribunal for information or documents to be supplied to the representative of that party or interested person.

(2) Rhaid i gais o'r fath a grybwyllir ym mharagraff (1) gynnwys enw a chyfeiriad y cynrychiolydd.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, fe fodlonir unrhyw ddyletswydd sydd ar y tribiwnlys o dan y Rheoliadau hyn i ddarparu unrhyw wybodaeth neu ddogfen drwy iddo ei hanfon at y cynrychiolydd neu ei rhoi iddynt.

### **Darparu gwybodaeth a dogfennau i bersonau sydd â buddiant**

**14.**-(1) Pan hysbysir y tribiwnlys o enw a chyfeiriad person sydd â buddiant, rhaid iddo sicrhau cyn gynted ag sy'n ymarferol y darperir i'r person sydd â buddiant-

- (a) copi o'r cais;
- (b) esboniad o'r weithdrefn pan fo person am wneud cais am gael ymuno yn yr achos fel ceisydd neu ymatebydd; ac
- (c) unrhyw wybodaeth neu ddogfen arall sy'n briodol ym marn y tribiwnlys.

(2) Caiff y tribiwnlys sicrhau fod gwybodaeth neu ddogfennau'n cael eu darparu o dan baragraff (1) drwy-

- (a) darparu'r wybodaeth neu'r dogfennau ei hun i'r person sydd â buddiant; neu
- (b) mynnu bod parti'n gwneud hynny drwy orchymyn a wneir o dan reoliad 16(2).

(3) Pan ddarperir gwybodaeth a dogfennau i berson sydd â buddiant yn unol â pharagraff (1) ond-

- (a) bod y person sydd â buddiant yn ymateb i'r tribiwnlys ond nid yw'n ymuno fel parti o dan reoliad 10; neu
- (b) nad yw'r person sydd â buddiant yn ymateb,

ni fydd unrhyw ddyletswydd bellach ar y tribiwnlys i sicrhau darparu gwybodaeth neu ddogfennau i'r person hwnnw.

### **Darparu dogfennau gan dribiwnlys**

**15.**-(1) Cyn penderfynu ynghylch cais, rhaid i'r tribiwnlys gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darparu i bob un o'r partïon-

- (a) copi o unrhyw ddogfen sy'n berthnasol i'r achos (neu ddetholiadau digonol o'r ddogfen neu fanylion y ddogfen) a dderbyniwyd oddi wrth unrhyw barti arall neu berson sydd â buddiant (heblaw dogfen sydd eisoes ym meddiant y parti neu'r person sydd â buddiant hwnnw, neu un y rhoddwyd copi ohoni eisoes i'r parti neu'r person sydd â buddiant hwnnw); a
- (b) copi o unrhyw ddogfen sy'n cynnwys canlyniadau unrhyw ymholiadau perthnasol a wnaed gan y tribiwnlys neu ar ran y tribiwnlys at ddibenion yr achos.

(2) A request mentioned in paragraph (1) must contain the name and address of the representative.

(3) Where this regulation applies any duty of the tribunal under these Regulations to supply any information or document is satisfied by sending or giving it to the representative.

### **Supply of information and documents to interested persons**

**14.**-(1) Where the tribunal is notified of the name and address of an interested person, it must ensure that as soon as is practicable the interested person is supplied with-

- (a) a copy of the application;
- (b) an explanation of the procedure for applying to be joined as an applicant or respondent; and
- (c) any other information or document which the tribunal considers appropriate.

(2) The tribunal may ensure the supply of information or documents under paragraph (1) by-

- (a) itself supplying the interested person with the information or documents; or
- (b) requiring a party to do so by an order made under regulation 16(2).

(3) Where information and documents are supplied to an interested person in accordance with paragraph (1) but the interested person-

- (a) responds to the tribunal but is not joined as a party under regulation 10; or
- (b) does not so respond,

the tribunal is not under any further duty to ensure the supply of information or documents to that person.

### **Supply of documents by tribunal**

**15.**-(1) Before determining an application, the tribunal must take all reasonable steps to ensure that each of the parties is supplied with-

- (a) a copy of any document relevant to the proceedings (or sufficient extracts from or particulars of the document) which has been received from any other party or from an interested person (other than a document already in the possession of that party or interested person, or one of which that party or interested person has previously been supplied with a copy); and
- (b) a copy of any document which embodies the results of any relevant enquiries made by or for the tribunal for the purposes of the proceedings.

(2) Mewn gwrandawriad, os nad yw parti eisoes wedi derbyn dogfen berthnasol, neu gopi o ddogfen berthnasol, neu ddeholiadau digonol neu fanylion o ddogfen berthnasol, yna oni bai bod-

- (a) y person hwnnw'n caniatáu i'r gwrandawriad barhau; neu
- (b) bod y tribiwnlys yn ystyried fod gan y person hwnnw gyfle digonol i ymdrin â'r materion y mae'r ddogfen yn ymwneud â hwy heb fod y gwrandawriad yn cael ei ohirio,

rhaid i'r tribiwnlys ohirio'r gwrandawriad am gyfnod y mae'n ystyried fydd yn rhoi cyfle digonol i'r person hwnnw ymdrin â'r materion hynny.

### **Darparu gwybodaeth a dogfennau gan bartïon**

16.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn yn mynnu fod parti'n darparu i'r tribiwnlys unrhyw wybodaeth neu ddogfen y mae o fewn pwerau'r parti hwnnw i'w darparu.

(2) Caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn yn mynnu fod parti'n darparu i barti arall neu i berson sydd â buddiant gopïau o unrhyw ddogfennau a gafodd eu darparu neu sydd i'w darparu i'r tribiwnlys o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i barti sy'n ddarostyngedig i orchymyn a wnaed o dan baragraff (1) neu (2) ddarparu'r fath wybodaeth, dogfennau neu gopïau erbyn pa bynnag amser a all fod wedi'i bennu yn y gorchymyn neu a benderfynir yn unol â'r gorchymyn.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn yn mynnu fod unrhyw berson yn mynychu gwrandawriad llafar i roi tystiolaeth ac i gyflwyno unrhyw ddogfennau a bennir yn y gorchymyn, neu sydd o ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn, y mae o fewn pwerau'r person hwnnw i'w cyflwyno.

(5) Nid yw paragraffau (1) a (4) yn gymwys i unrhyw ddogfen na ellid gorfodi person i'w chyflwyno mewn treial o achos mewn llys barn yng Nghymru neu Loegr.

(6) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel wneud gorchymyn o dan baragraff (1), (2) neu (4) sydd-

- (a) yn fater rhagarweiniol i wrandawriad llafar; neu
- (b) yn fater rhagarweiniol i benderfyniad neu'n fater sy'n gysylltiedig â phenderfyniad.

### **Methiant i gydymffurfio â gorchymyn i ddarparu gwybodaeth a dogfennau**

17. Pan fo parti wedi methu â chydymffurfio â gorchymyn a wnaed o dan reoliad 16(1), (2) neu (4) caiff y tribiwnlys wneud gorchymyn yn gwrthod neu'n caniatáu'r cyfan neu ran o'r cais.

(2) At a hearing, if a party has not previously received a relevant document or a copy of, or sufficient extracts from or particulars of, a relevant document, then unless-

- (a) that person consents to the continuation of the hearing; or
- (b) the tribunal considers that that person has a sufficient opportunity to deal with the matters to which the document relates without an adjournment of the hearing,

the tribunal must adjourn the hearing for a period which it considers will give that person a sufficient opportunity to deal with those matters.

### **Supply of information and documents by parties**

16.-(1) Subject to paragraph (5), the tribunal may make an order requiring a party to supply to the tribunal any information or document which it is in the power of that party to supply and which is specified, or of a description specified, in the order.

(2) The tribunal may make an order requiring a party to supply to another party or to an interested person copies of any documents supplied or to be supplied to the tribunal under paragraph (1).

(3) A party who is subject to an order made under paragraph (1) or (2) must supply such information, documents or copies by such time as may be specified in, or determined in accordance with, the order.

(4) Subject to paragraph (5) the tribunal may make an order requiring any person to attend an oral hearing to give evidence and produce any documents specified, or of a description specified, in the order which it is in the power of that person to produce.

(5) Paragraphs (1) and (4) do not apply in relation to any document which a person could not be compelled to produce on the trial of an action in a court of law in England or Wales.

(6) A single qualified member of the panel may make an order under paragraph (1), (2) or (4) which is-

- (a) preliminary to an oral hearing; or
- (b) preliminary or incidental to a determination.

### **Failure to comply with an order to supply information and documents**

17. Where a party has failed to comply with an order made under regulation 16(1), (2) or (4) the tribunal may make an order dismissing or allowing the whole or part of the application.

## Penderfynu heb wrandawriad

18.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (6) caiff y tribiwnlys benderfynu ynghylch cais heb wrandawriad llafar os bydd wedi hysbysu'r partïon mewn ysgrifen ddim llai na 14 diwrnod ymlaen llaw o'i fwriad i wneud hynny.

- (2) Ar unrhyw adeg cyn penderfynu ynghylch cais-
- (a) caiff y ceisydd neu'r ymatebydd ofyn am wrandawriad llafar; neu
  - (b) caiff y tribiwnlys hysbysu'r partïon ei fod yn bwriadu cynnal gwrandawriad llafar.

(3) Pan wneir cais neu pan roir hysbysiad o dan baragraff (2), rhaid i'r tribiwnlys roi hysbysiad o wrandawriad yn unol â rheoliad 25.

(4) Gellir gwneud dyfarniad heb wrandawriad llafar yn absenoldeb unrhyw sylwadau gan yr ymatebydd.

(5) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel benderfynu pa un ai a yw gwrandawriad llafar yn briodol neu beidio ar mwyn penderfynu ynghylch cais(1).

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gais y mae rheoliad 9 (ceisiadau brys am orchymyn rheoli dros dro) yn gymwys iddo.

## Gorchymynion dros dro

19.-(1) Caiff tribiwnlys wneud gorchymyn a fydd yn weithredol dros dro ("gorchymyn dros dro")-

- (a) yn atal, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, effaith unrhyw benderfyniad, hysbysiad, gorchymyn neu drwydded sy'n wrthrych achos sydd ger ei fron; neu
- (b) yn caniatáu am y tro unrhyw rwymedi y byddai ganddo bŵer i'w ddyfarnu yn ei benderfyniad terfynol.

(2) Pan fo'r tribiwnlys yn gwneud gorchymyn dros dro heb yn gyntaf ganiatáu cyfle i'r partïon wneud sylwadau ynghylch gwneud y gorchymyn, caiff parti ofyn am amrywio'r gorchymyn dros dro neu ei ddiddymu.

- (3) Gellir gwneud unrhyw gais o'r fath-
- (a) ar lafar mewn cynhadledd rheoli achos neu wrandawriad;
  - (b) mewn ysgrifen; neu
  - (c) drwy unrhyw ddull arall ag y gall tribiwnlys ei ganiatáu.

(4) Rhaid cofnodi gorchymyn dros dro cyn gynted ag y bo modd mewn dogfen y mae'n rhaid iddi, heblaw yn achos gorchymyn a wnaed gyda chytundeb yr holl bartïon, roi'r rhesymau dros y penderfyniad i wneud y gorchymyn.

---

(1) Am ddiffiniad "single qualified member" yn y cyd-destun hwn, gweler paragraff 10(4) o Atodlen 13 i'r Ddeddf.

## Determination without a hearing

18.-(1) Subject to paragraphs (2) and (6) the tribunal may determine an application without an oral hearing if it has given the parties not less than 14 days' notice in writing of its intention to do so.

- (2) At any time before the application is determined-
- (a) the applicant or the respondent may request an oral hearing; or
  - (b) the tribunal may give notice to the parties that it intends to hold an oral hearing.

(3) Where a request is made or a notice given under paragraph (2) the tribunal must give notice of a hearing in accordance with regulation 25.

(4) A determination without an oral hearing may be made in the absence of any representations by the respondent.

(5) A single qualified member of the panel may decide whether an oral hearing is or is not appropriate to determine an application(1).

(6) This regulation does not apply to an application to which regulation 9 (urgent IMO authorisation applications) applies.

## Interim orders

19.-(1) A tribunal may make an order on an interim basis (an "interim order")-

- (a) suspending, in whole or in part, the effect of any decision, notice, order or licence which is the subject matter of proceedings before it; or
- (b) for the time being granting any remedy which it would have had power to grant in its final decision.

(2) Where the tribunal makes an interim order without first giving the parties the opportunity to make representations with regard to making it, a party may request that the interim order be varied or set aside.

- (3) Any such request may be made-
- (a) orally at a case management conference or hearing;
  - (b) in writing; or
  - (c) by such other means as the tribunal may permit.

(4) An interim order must be recorded as soon as possible in a document which, except in the case of an order made with the consent of all parties, must give reasons for the decision to make the order.

---

(1) For definition of "single qualified member" in this context, see paragraph 10(4) of Schedule 13 to the Act.

(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gais am awdurdodi gorchymyn rheoli dros dro.

### Cyfarwyddiadau

**20.**-(1) Caiff parti ofyn i'r tribiwnlys roi cyfarwyddiadau drwy wneud gorchymyn o dan ei bŵer cyffredinol yn adran 230(2) o'r Ddeddf.

(2) Caiff parti y cyfeirir cyfarwyddyd ato ofyn i'r tribiwnlys ei amrywio neu ei ddiddymu.

(3) Gellir gwneud cais y cyfeirir ato ym mharagraff (1) neu (2)-

- (a) ar lafar mewn cynhadledd rheoli achos neu wrandawriad;
- (b) mewn ysgriflen; neu
- (c) drwy unrhyw ddull arall ag y gall tribiwnlys ei ganiatáu.

(4) Rhaid i'r parti sy'n gwneud y cais bennu'r cyfarwyddiadau a geisir a'r rhesymau dros eu ceisio.

(5) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel roi cyfarwyddyd gweithdrefnol ynghylch unrhyw fater sydd-

- (a) yn fater rhagarweiniol i wrandawriad llafar; neu
- (b) yn fater rhagarweiniol i benderfyniad neu'n fater cysylltiedig â phenderfyniad.

(6) Ym mharagraff (5), ystyr "cyfarwyddyd gweithdrefnol" ("*procedural direction*") yw unrhyw gyfarwyddyd heblaw un o'r rhai a ddynodir ym mharagraffau (a) i (e) o adran 230(5) o'r Ddeddf.

### Archwilio mangreodd a'u cyffiniau

**21.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff y tribiwnlys archwilio-

- (a) y fangre;
- (b) unrhyw fangre arall y gallai ei harchwilio gynorthwyo'r tribiwnlys i benderfynu ynghylch y cais;
- (c) yr ardal o gwmpas y fangre.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3)-

- (a) rhaid i'r tribiwnlys roi'r cyfle i'r partïon fod yn bresennol ar adeg archwiliad; a
- (b) caiff aelod o'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yn rhinwedd hynny fod yn bresennol ar adeg unrhyw archwiliad.

(3) Mae gwneud archwiliad a mynychu archwiliad yn amodol ar sicrhau unrhyw ganiatâd sydd ei angen.

(4) Pan fo yna wrandawriad llafar, gellir cynnal archwiliad cyn y gwrandawriad, yn ystod y gwrandawriad neu ar ôl y gwrandawriad.

(5) This regulation does not apply to an IMO authorisation application.

### Directions

**20.**-(1) A party may request the tribunal to give directions by order under its general power in section 230(2) of the Act.

(2) A party to whom a direction is addressed may request the tribunal to vary it or set it aside.

(3) A request referred to in paragraph (1) or (2) may be made-

- (a) orally at a case management conference or hearing;
- (b) in writing; or
- (c) by such other means as the tribunal may permit.

(4) The party making the request must specify the directions which are sought and the reasons for seeking them.

(5) A single qualified member of the panel may give a procedural direction as to any matter which is-

- (a) preliminary to an oral hearing; or
- (b) preliminary or incidental to a determination.

(6) In paragraph (5), "procedural direction" ("*cyfarwyddyd gweithdrefnol*") means any direction other than one of those set out in paragraphs (a) to (e) of section 230(5) of the Act.

### Inspection of premises and neighbourhood

**21.**-(1) Subject to paragraph (3) the tribunal may inspect-

- (a) the premises;
- (b) any other premises inspection of which may assist the tribunal in determining the application;
- (c) the locality of the premises.

(2) Subject to paragraph (3)-

- (a) the tribunal must give the parties an opportunity to attend an inspection; and
- (b) a member of the Council on Tribunals who is acting in that capacity may attend any inspection.

(3) The making of and attendance at an inspection is subject to any necessary consent being obtained.

(4) Where there is an oral hearing, an inspection may be carried out before, during, or after the hearing.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid i'r tribiwnlys roi rhybudd i'r partïon o ddim llai na 14 diwrnod o ddyddiad, amser a lleoliad yr archwiliad i'r partïon.

(6) Gellir hepgor unrhyw un o'r gofynion ar gyfer rhybudd ym mharagraff (5) neu ei lacio os yw'r tribiwnlys wedi'i fodloni fod y partïon wedi derbyn rhybudd digonol.

(7) Pan wneir archwiliad ar ôl i wrandawriad llafar derfynu, caiff y tribiwnlys ailagor y gwrandawriad o achos unrhyw fater sy'n codi o'r archwiliad, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad a ail-agorir i'r partïon.

### Tystiolaeth arbenigol

22.-(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr "arbenigwr" ("*expert*") yw arbenigwr annibynnol nad yw'n cael ei gyflogi gan un o'r partïon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff parti roi tystiolaeth arbenigol gerbron y tribiwnlys, ac wrth wneud hynny rhaid iddo-

- (a) darparu crynodeb ysgrifenedig o'r dystiolaeth ar gyfer y tribiwnlys; a
- (b) darparu copi o'r crynodeb ysgrifenedig hwnnw ar gyfer pob parti arall o leiaf 7 diwrnod cyn-
  - (i) dyddiad y gwrandawriad llafar perthnasol y rhoddwyd hysbysiad ohono mewn perthynas â'r cais o dan reoliad 25; neu
  - (ii) y dyddiad a hysbyswyd o dan reoliad 18 pryd y byddir yn penderfynu ynghylch y cais heb wrandawriad llafar.

(3) Rhaid i grynodedb ysgrifenedig yr arbenigwr o dystiolaeth yr arbenigwr-

- (a) bod wedi'i gyfeirio at y tribiwnlys;
- (b) cynnwys manylion o gymwysterau'r arbenigwr;
- (c) cynnwys datganiad fod yr arbenigwr yn deall dyletswydd yr arbenigwr i gynorthwyo'r tribiwnlys ynghylch y materion sydd o fewn arbenigedd yr arbenigwr, a'i fod wedi cydymffurfio â hynny, a'i fod yn deall bod y ddyletswydd honno'n bwysicach nag unrhyw ddyletswydd tuag at y person y derbyniodd yr arbenigwr gyfarwyddiadau oddi wrtho neu y mae'r arbenigwr wedi'i gyflogi neu'i dalu ganddo.

(4) Pan fo tribiwnlys yn rhoi cyfarwyddyd, o dan ei bŵer cyffredinol yn adran 230(2) o'r Ddeddf, na all parti roi tystiolaeth arbenigol ger ei fron heb ei ganiatâd, caiff bennu fel amod i'r caniatâd hwnnw-

- (a) bod yn rhaid cyfyngu tystiolaeth yr arbenigwr i'r materion hynny ag y bydd y tribiwnlys yn ei gyfarwyddo;

(5) Subject to paragraph (6), the tribunal must give the parties not less than 14 days notice of the date, time and place of the inspection.

(6) Any of the requirements for notice in paragraph (5) may be dispensed with or relaxed if the tribunal is satisfied that the parties have received sufficient notice.

(7) Where an inspection is made after the close of an oral hearing, the tribunal may reopen the hearing on account of any matter arising from the inspection, after giving reasonable notice of the date, time and place of the reopened hearing to the parties.

### Expert evidence

22.-(1) In this regulation "expert" ("*arbenigwr*") means an independent expert who is not an employee of a party.

(2) Subject to paragraph (4) a party may adduce expert evidence, and in doing so must-

- (a) provide the tribunal with a written summary of the evidence; and
- (b) supply a copy of that written summary to each other party at least 7 days before-
  - (i) the date of the relevant oral hearing notified in relation to the application under regulation 25; or
  - (ii) the date notified under regulation 18 upon which the application will be determined without an oral hearing.

(3) An expert's written summary of the expert's evidence must-

- (a) be addressed to the tribunal;
- (b) include details of the expert's qualifications;
- (c) contain a statement that the expert understands and has complied with the expert's duty to assist the tribunal on the matters within the expert's expertise, overriding any obligation to the person from whom the expert has received instructions or by whom the expert is employed or paid.

(4) Where the tribunal gives a direction, under its general power in section 230(2) of the Act, that a party may not adduce expert evidence without its permission, it may specify as a condition of that permission that-

- (a) the expert's evidence must be limited to such matters as the tribunal directs;



- (b) bod yn rhaid i'r arbenigwr fynychu gwrandawriad i roi tystiolaeth lafar; neu
- (c) bod yn rhaid i'r partïon gyfarwyddo'r arbenigwr ar y cyd.

### **Cynhadledd rheoli achos**

**23.**-(1) Caiff y tribiwnlys gynnal cynhadledd rheoli achos.

(2) Rhaid i'r tribiwnlys roi rhybudd o ddim llai na 7 diwrnod o ddyddiad, amser a lleoliad y gynhadledd rheoli achos i'r partïon.

(3) Yn y gynhadledd rheoli achos caiff y tribiwnlys orchymyn y partïon i gymryd pa gamau bynnag a gwneud pa bethau bynnag ag sy'n ymddangos i'r tribiwnlys eu bod yn ofynnol neu'n ddymunol ar gyfer sicrhau penderfynu ynghylch y cais mewn ffordd gyfiawn, brydlon ac economaidd.

(4) Caiff y tribiwnlys ohirio neu oedi cynhadledd rheoli achos.

(5) Caiff parti gael ei gynrychioli mewn cynhadledd rheoli achos.

(6) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel gyflawni swyddogaethau'r tribiwnlys o dan y rheoliad hwn.

### **Pwerau rheoli achos eraill**

**24.**-(1) Caiff y tribiwnlys-

- (a) cwtogi'r amser a bennir gan y Rheoliadau hyn neu o danynt ar gyfer cyflawni unrhyw weithred pan fo'r holl bartïon yn cytuno i'r cwtogi hwnnw;
- (b) estyn yr amser a bennir gan y Rheoliadau hyn neu o danynt ar gyfer cyflawni unrhyw weithred, hyd yn oed os bydd yr amser a benodwyd wedi dod i ben-
  - (i) pan na fyddai'n rhesymol disgwyl i'r person dan sylw gydymffurfio neu fod wedi cydymffurfio o fewn yr amser hwnnw; neu
  - (ii) pan fyddai peidio ag estyn yr amser yn esgor ar anghyfiawnder sylweddol;
- (c) caniatáu defnyddio ffôn, cyswllt fideo, neu unrhyw ddull arall o gyfathrebu-
  - (i) er mwyn gwneud sylwadau gerbron y tribiwnlys; neu
  - (ii) at ddibenion cynhadledd rheoli achos neu wrandawriad;
- (ch) mynnu fod unrhyw berson sy'n rhoi tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys gyda'r dystiolaeth honno ddatganiad wedi'i lofnodi fod y person yn credu fod y ffeithiau a ddatgenir yn y dystiolaeth yn wir;

- (b) the expert must attend a hearing to give oral evidence; or
- (c) the parties must jointly instruct the expert.

### **Case management conference**

**23.**-(1) The tribunal may hold a case management conference.

(2) The tribunal must give the parties not less than 7 days' notice of the date, time and place of the case management conference.

(3) At the case management conference the tribunal may order the parties to take such steps or do such things as appear to it to be necessary or desirable for securing the just, expeditious and economical determination of the application.

(4) The tribunal may postpone or adjourn a case management conference.

(5) A party may be represented at a case management conference.

(6) The functions of the tribunal under this regulation may be exercised by a single qualified member of the panel.

### **Other case management powers**

**24.**-(1) The tribunal may-

- (a) reduce the time appointed by or under these Regulations for doing any act where all parties agree the reduction in question;
- (b) extend the time appointed by or under these Regulations for doing any act, even if the time appointed has expired, where-
  - (i) it would not be reasonable to expect the person in question to comply or have complied within that time; or
  - (ii) not to extend the time would result in substantial injustice;
- (c) permit the use of telephone, video link, or any other method of communication-
  - (i) to make representations to the tribunal; or
  - (ii) for the purposes of a case management conference or hearing;
- (d) require any person giving written evidence to include with that evidence a signed statement that the person believes that the facts stated in the evidence are true;

- (d) cymryd unrhyw gam arall neu wneud unrhyw benderfyniad arall y mae'r tribiwnlys yn ystyried ei fod yn ofynnol neu'n ddymunol at ddiben rheoli'r achos.

(2) Caiff y tribiwnlys weithredu ei bwerau o dan y Rheoliadau hyn mewn ymateb i gais i wneud hynny neu o'i benderfyniad ei hun.

(3) Caiff un aelod cymwysedig o'r panel weithredu'r pwerau a roir o dan y rheoliad hwn mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n rhagarweiniol i-

- (a) gwrandawriad llafar; neu
- (b) dyfarniad sydd i'w wneud heb wrandawriad llafar.

### **Hysbysu ynghylch gwrandawriad**

**25.**-(1) Y tribiwnlys sydd i benodi dyddiad, lleoliad ac amser gwrandawriad.

(2) Rhaid i'r tribiwnlys hysbysu'r partïon o'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad a benodwyd ar gyfer y gwrandawriad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) rhaid rhoi hysbysiad ynghylch y gwrandawriad ddim llai na 21 diwrnod cyn y dyddiad a benodwyd.

(4) Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff y tribiwnlys, heb gytundeb y partïon, roi llai na 21 diwrnod o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad; ond rhaid rhoi unrhyw rybudd o'r fath cyn gynted ag sy'n ymarferol cyn y dyddiad a benodwyd a rhaid i'r hysbysiad bennu beth yw'r amgylchiadau eithriadol.

### **Gohirio gwrandawriad**

**26.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) caiff y tribiwnlys ohirio gwrandawriad llafar.

(2) Rhaid i'r tribiwnlys roi rhybudd rhesymol o'r amser a'r dyddiad hyd y rhai y gohirir gwrandawriad.

(3) Pan fo parti'n gofyn am ohiriad, ni chaiff y tribiwnlys ohirio'r gwrandawriad oni bai ei fod yn ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny o ystyried-

- (a) y sail dros wneud y cais;
- (b) yr adeg y gwneir y cais; ac
- (c) cyfleustra'r partïon.

### **Y gwrandawriad**

**27.**-(1) Mewn gwrandawriad-

- (a) y tribiwnlys (yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn) sy'n penderfynu ar weithdrefn y gwrandawriad a'r modd y'i cynhelir;

- (e) take any other step or make any other decision which the tribunal considers necessary or desirable for the purpose of managing the case.

(2) The tribunal may exercise its powers under these Regulations in response to a request to do so or on its own initiative.

(3) A single qualified member of the panel may exercise the powers under this regulation as to any matter which is preliminary to-

- (a) an oral hearing; or
- (b) a determination which is to be made without an oral hearing.

### **Notice of hearing**

**25.**-(1) The date, time and place of a hearing is to be appointed by the tribunal.

(2) The tribunal must give notice to the parties of the appointed date, time and place of the hearing.

(3) Subject to paragraph (4) notice of the hearing must be given not less than 21 days before the appointed date.

(4) In exceptional circumstances the tribunal may, without the agreement of the parties, give less than 21 days' notice of the appointed date, time and place of the hearing; but any such notice must be given as soon as practicable before the appointed date and the notice must specify what the exceptional circumstances are.

### **Postponement of hearing**

**26.**-(1) Subject to paragraph (3) the tribunal may postpone an oral hearing.

(2) The tribunal must give reasonable notice to the parties of the time and date to which a hearing is postponed.

(3) Where postponement has been requested by a party the tribunal must not postpone the hearing except where it considers it is reasonable to do so having regard to-

- (a) the grounds for the request;
- (b) the time at which the request is made; and
- (c) the convenience of the parties.

### **Hearing**

**27.**-(1) At a hearing-

- (a) the tribunal (subject to these regulations) determines the procedure and conduct;

- (b) caiff unrhyw berson sy'n ymddangos gerbron y tribiwnlys wneud hynny un ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd y person hwnnw;
- (c) mae gan y partïon yr hawl-
  - (i) i roi tystiolaeth berthnasol;
  - (ii) i alw tystion;
  - (iii) i holi unrhyw dyst; a
  - (iv) i annerch y tribiwnlys ynghylch y dystiolaeth a'r gyfraith ac yn gyffredinol ynghylch pwnc y cais; ac
- (ch) caiff y tribiwnlys dderbyn tystiolaeth o unrhyw ffaith sy'n ymddangos iddo ei bod yn berthnasol, hyd yn oed os byddai'r dystiolaeth yn annerbyniadwy mewn achos gerbron llys barn, ac ni chaiff wrthod unrhyw dystiolaeth a gyflwynir mewn da bryd sy'n dderbyniadwy o dan y gyfraith ac sy'n berthnasol ac yn angenrheidiol a heb ei chael mewn ffordd amhriodol.

(2) Mewn gwrandawriad, caiff tribiwnlys os yw wedi'i fodloni ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny, ganiatáu i barti ddibynnu ar resymau nas datganwyd o'r blaen ac ar dystiolaeth nad oedd ar gael o'r blaen neu nas dygwyd gerbron o'r blaen.

(3) Caiff y tribiwnlys ohirio gwrandawriad i adeg arall, ond os gwneir hynny ar gais un o'r partïon, rhaid i'r tribiwnlys ystyried a yw'n rhesymol gwneud hynny yng ngoleuni-

- (a) y sail dros wneud y cais;
- (b) yr adeg y gwneir y cais; ac
- (c) cyfleustra'r partïon.

### Gwrandawriad cyhoeddus neu'n breifat

**28.**-(1) Rhaid i wrandawriad fod yn gyhoeddus heblaw pan fo'r tribiwnlys wedi'i fodloni yn amgylchiadau'r achos ac yn ddarostyngedig i'r amcan cyffredinol y dylid cynnal y gwrandawriad yn breifat.

(2) Caiff y tribiwnlys benderfynu o dan baragraff (1)-

- (a) bod yn rhaid i ran yn unig o'r gwrandawriad fod yn breifat; neu
- (b) na ddylid cyhoeddi unrhyw un o'r materion canlynol-
  - (i) gwybodaeth am yr achos gerbron y tribiwnlys;
  - (ii) enwau a manylion a allai arwain at adnabod y personau sy'n ymwneud â'r achos; neu
  - (iii) tystiolaeth benodol a roddir yn ystod yr achos.

- (b) any person appearing before the tribunal may do so either in person or by that person's representative;
- (c) the parties are entitled to-
  - (i) give relevant evidence;
  - (ii) call witnesses;
  - (iii) question any witness; and
  - (iv) address the tribunal on the evidence and law and generally on the subject matter of the application; and
- (d) the tribunal may receive evidence of any fact which seems to it to be relevant, even if the evidence would be inadmissible in proceedings before a court of law, and must not refuse to admit any evidence presented in due time which is admissible at law and is relevant and necessary and has not been improperly obtained.

(2) At a hearing the tribunal may, if it is satisfied that it is just and reasonable to do so, permit a party to rely on reasons not previously stated and on evidence not previously available or not previously adduced.

(3) The tribunal may adjourn a hearing, but if this is done at the request of a party it must consider that it is reasonable to do so having regard to-

- (a) the grounds for the request;
- (b) the time at which the request is made; and
- (c) the convenience of the parties.

### Hearing in public or private

**28.**-(1) A hearing must be in public except where the tribunal is satisfied that in the circumstances of the case and subject to the overriding objective the hearing should be held in private.

(2) The tribunal may decide under paragraph (1) that-

- (a) part only of the hearing must be in private; or
- (b) any of the following matters must not be made public-
  - (i) information about the proceedings before the tribunal;
  - (ii) the names and identifying characteristics of persons concerned in the proceedings; or
  - (iii) specified evidence given in the proceedings.

### **Personau sydd â'r hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat**

29.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) mae gan y personau canlynol yr hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat ac i fod yn bresennol yn ystod trafodaethau'r tribiwnlys ar gyfer penderfynu ar y cais-

- (a) llywydd neu gadeirydd neu aelod arall o'r panel nad yw'n rhan o'r tribiwnlys at ddibenion y gwrandawriad;
- (b) aelod o'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yn rhinwedd y swydd honno;
- (c) staff y Gwasanaeth Tribiwnlys;
- (ch) unrhyw berson arall a gaiff ganiatâd y tribiwnlys gyda chytundeb y partiön.

(2) Ni chaiff yr un o'r personau a bennir ym mharagraff (1) gymryd unrhyw ran yn y gwrandawriad neu drafodaethau o'r fath.

(3) Caiff tribiwnlys ganiatáu i bersonau fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat ar ba bynnag delerau ac amodau ag y tyb sy'n briodol.

### **Methiant parti i ymddangos mewn gwrandawriad**

30. Pan fo parti yn methu ag ymddangos mewn gwrandawriad, caiff y tribiwnlys barhau gyda'r gwrandawriad os-

- (a) yw wedi'i fodloni fod y parti hwnnw wedi'i hysbysu o'r gwrandawriad yn unol â'r Rheoliadau hyn; a
- (b) nad yw wedi'i fodloni fod yna reswm da pam y methodd ymddangos.

### **Penderfyniadau'r Tribiwnlys wrth ddyfarnu ynghylch ceisiadau**

31.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r penderfyniad sy'n dyfarnu ynghylch cais.

(2) Os cynhaliwyd gwrandawriad, gellir cyhoeddi'r penderfyniad ar lafar ar ddiwedd y gwrandawriad.

(3) Rhaid, ym mhob achos, cofnodi'r penderfyniad mewn dogfen cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

(4) Nid oes angen i benderfyniad a roddir neu a gofnodir yn unol â pharagraff (2) neu (3) gofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Rhaid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad mewn dogfen cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl rhoi neu gofnodi'r penderfyniad.

(6) Rhaid i ddogfen sy'n cofnodi penderfyniad neu'r rhesymau dros benderfyniad ("dogfen penderfyniad") gael ei lofnodi a'i ddyddio gan berson priodol.

(7) Caiff person priodol, drwy gyfrwng tystysgrif

### **Persons entitled to be present at a hearing held in private**

29.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3) the following persons are entitled to attend a hearing held in private and to be present at the tribunal's deliberations with respect to the determination of the application-

- (a) a president or chair or other panel member not forming part of the tribunal for the purpose of the hearing;
- (b) a member of the Council on Tribunals who is acting in that capacity;
- (c) the staff of the Tribunal Service;
- (d) any other person permitted by the tribunal with the consent of the parties.

(2) None of the persons specified in paragraph (1) may take any part in the hearing or such deliberations.

(3) The tribunal may admit persons to a hearing held in private on such terms and conditions as it considers appropriate.

### **Failure of a party to appear at a hearing**

30. Where a party fails to appear at a hearing the tribunal may proceed with the hearing if-

- (a) it is satisfied that notice has been given to that party in accordance with these Regulations; and
- (b) it is not satisfied that there is a good reason for the failure to appear.

### **Decisions of the Tribunal in determining applications**

31.-(1) This regulation applies to the decision determining an application.

(2) If a hearing was held, the decision may be given orally at the end of the hearing.

(3) A decision must, in every case, be recorded in a document as soon as practicable after the decision has been made.

(4) A decision given or recorded in accordance with paragraph (2) or (3) need not record the reasons for the decision.

(5) The reasons for the decision must be recorded in a document as soon as practicable after the decision has been given or recorded.

(6) A document recording a decision or the reasons for a decision (a "decision document"), must be signed and dated by an appropriate person.

(7) An appropriate person may, by means of a

wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y person hwnnw, gywiro unrhyw wallau clericio mewn dogfen penderfyniad neu unrhyw wallau sy'n codi ynddo o lithriad neu esgeulustod damweiniol.

(8) Yn y rheoliad hwn, ystyr "person priodol" ("*appropriate person*") yw-

- (a) Cadeirydd y tribiwnlys; neu
- (b) yn achos absenoldeb neu analluogrwydd y Cadeirydd, aelod arall o'r tribiwnlys.

(9) Rhaid anfon copi o unrhyw ddogfen penderfyniad, a chopi o unrhyw gywiriad yr ardystiwyd iddo o dan baragraff (7) i bob parti.

### Costau

32. Ni chaiff y tribiwnlys wneud dyfarniad o dan baragraff 12 o Atodlen 13 i'r Ddeddf mewn perthynas â pharti heb yn gyntaf ganiatáu i'r parti hwnnw y cyfle i gyflwyno sylwadau i'r tribiwnlys.

### Tynnu cais yn ôl

33.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff ceisydd ("y parti sy'n tynnu'n ôl") ("the withdrawing party") dynnu'n ôl y cyfan o gais a wnaed gan y ceisydd hwnnw, neu ran o'r fath gais, yn unol â pharagraff (2) ar unrhyw adeg cyn y dyfernir y cais.

(2) Rhaid i'r parti sy'n tynnu'n ôl hysbysu ei fod yn tynnu'r cais yn ôl drwy gyflwyno hysbysiad wedi'i lofnodi a'i ddyddio i'r tribiwnlys-

- (a) yn rhoi gwybodaeth ddigonol i alluogi adnabod y cais neu'r rhan o gais sy'n cael ei dynnu'n ôl;
- (b) yn datgan os oes yna unrhyw ran o'r cais, ac os felly pa ran, sydd eto i'w benderfynu arno; ac
- (c) yn cadarnhau fod copi o'r hysbysiad fod y cais yn cael ei dynnu'n ôl wedi'i roi i'r holl bartïon eraill ac yn nodi'r dyddiad pryd y gwnaed hynny.

(3) O dan unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff (4), ni fydd tynnu'r cais yn ôl yn effeithiol hyd y bydd un o'r camau gweithredu ym mharagraff (5) wedi'i gyflawni.

(4) Yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (3) yw bod-

- (a) gorchymyn dros dro wedi'i wneud o blaid parti;
- (b) parti wedi gwneud ymrwymiad i'r tribiwnlys;
- (c) taliad wedi'i orchymyn i'r parti sy'n tynnu'n ôl, boed hynny i'w ddigolledu, fel iawndal, fel costau, i ad-dalu ffioedd neu unrhyw beth arall;
- (ch) parti wedi gwneud cais am orchymyn i ad-dalu ffioedd.

certificate signed and dated by that person, correct any clerical mistakes in a decision document or any errors arising in it from an accidental slip or omission.

(8) In this regulation "appropriate person" ("*person priodol*") means-

- (a) the Chair of the tribunal; or
- (b) in the event of the chair's absence or incapacity, another member of the tribunal.

(9) A copy of any decision document, and a copy of any correction certified under paragraph (7) must be sent to each party.

### Costs

32. The tribunal must not make a determination under paragraph 12 of Schedule 13 to the Act in respect of a party without first giving that party an opportunity of making representations to the tribunal.

### Withdrawal of application

33.-(1) Subject to paragraph (3) an applicant ("the withdrawing party") ("y parti sy'n tynnu'n ôl") may withdraw the whole or part of an application made by that applicant in accordance with paragraph (2) at any time before determination of the application.

(2) The withdrawing party must notify withdrawal of the application by a signed and dated notice supplied to the tribunal-

- (a) sufficiently identifying the application or part of the application which is withdrawn;
- (b) stating whether any part of the application, and if so what, remains to be determined; and
- (c) confirming that a copy of the notice of the withdrawal has been supplied to all other parties and stating the date on which this was done.

(3) In any of the circumstances set out in paragraph (4), withdrawal of the application is not effective until one of the courses of action in paragraph (5) has been carried out.

(4) The circumstances mentioned in paragraph (3) are that-

- (a) an interim order in favour of a party has been made;
- (b) a party has given an undertaking to the tribunal;
- (c) payment to the withdrawing party has been ordered whether by way of compensation, damages, costs, reimbursement of fees or otherwise;
- (d) a party has requested an order for reimbursement of fees.

(5) Y camau gweithredu a grybwyllir ym mharagraff (3) yw-

- (a) bod y parti sy'n tynnu'n ôl wedi anfon datganiad ysgrifenedig i'r tribiwnlys wedi'i lofnodi gan yr holl bartïon eraill yn nodi sut y dylid ymdrin ag unrhyw un o'r amgylchiadau yn is-baragraffau (a) i (ch) o baragraff (4); neu
- (b) bod y parti sy'n tynnu'n ôl wedi hysbysu'r holl bartïon o'i fwriad i dynnu'n ôl y cais ac-
  - (i) bod y parti sy'n tynnu'n ôl wedi gofyn i'r tribiwnlys roi cyfarwyddiadau ynghylch yr amodau dan y rhai y gellir tynnu'r cais yn ôl; a
  - (ii) bod y tribiwnlys wedi rhoi cyfarwyddiadau o'r fath.

(6) Wrth roi cyfarwyddiadau o dan baragraff (5)(b)(ii), gall y tribiwnlys osod pa bynnag amodau ag y tyb sy'n briodol.

(7) Caiff un aelod cymwysedig roi cyfarwyddiadau o dan baragraff (5)(b)(ii).

### Gorfodi

34. Gellir, gyda chaniatâd y llys sirol, orfodi unrhyw benderfyniad gan y tribiwnlys yn yr un ffordd â gorchmynion y fath lys.

### Caniatâd i apelio

35.-(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr "apelio" ("*to appeal*") yw gwneud apêl yn erbyn penderfyniad gan y tribiwnlys i'r Tribiwnlys Tiroedd ac mae i "apelydd" ("*appellant*") ystyr sy'n cyfateb i hynny.

(2) Pan fo parti'n gwneud cais i'r tribiwnlys am ganiatâd i apelio i'r Tribiwnlys Tiroedd yn sgil penderfyniad gan y tribiwnlys, gellir gwneud y cais-

- (a) ar lafar yn y gwrandawriad lle mae'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan y tribiwnlys; neu
- (b) ar ôl hynny mewn ysgrifen i swyddfa'r tribiwnlys.

(3) Rhaid gwneud cais am ganiatâd i apelio o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad o'r penderfyniad fel y dyddiad pryd y rhoddwyd y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Pan wneir cais am ganiatâd i apelio mewn ysgrifen, rhaid iddo gael ei lofnodi gan yr apelydd neu gynrychiolydd yr apelydd a rhaid iddo-

- (a) nodi enw a chyfeiriad yr apelydd ac enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd i'r apelydd;
- (b) nodi at ba benderfyniad a pha dribiwnlys y mae'r cais am ganiatâd i apelio yn cyfeirio;
- (c) datgan y seiliau y bwriada'r apelydd ddiwyddu arnynt yn yr apêl.

(5) The courses of action mentioned in paragraph (3) are that-

- (a) the withdrawing party has sent to the tribunal a written statement signed by all other parties setting out how any of the circumstances in sub-paragraphs (a) to (d) of paragraph (4) which apply to the case are to be dealt with; or
- (b) the withdrawing party has given notice of the intended withdrawal to all parties and-
  - (i) the withdrawing party has requested the tribunal to give directions as to the conditions on which the withdrawal may be made; and
  - (ii) the tribunal has given such directions.

(6) In giving directions under paragraph (5)(b)(ii) the tribunal may impose such conditions as it considers appropriate.

(7) A single qualified member may give directions under paragraph (5)(b)(ii).

### Enforcement

34. Any decision of the tribunal may, with the permission of the county court, be enforced in the same way as orders of such a court.

### Permission to appeal

35.-(1) In this regulation "to appeal" ("*apelio*") means to make an appeal from a decision of the tribunal to the Lands Tribunal and "appellant" ("*apelydd*") bears a corresponding meaning.

(2) Where a party makes a request to the tribunal for permission to appeal to the Lands Tribunal from a decision of the tribunal the request may be made-

- (a) orally at the hearing at which the decision is announced by the tribunal; or
- (b) subsequently in writing to the office of the tribunal.

(3) A request for permission to appeal must be made within the period of 21 days starting with the date specified in the decision notice as the date on which reasons for the decision were given.

(4) Where a request for permission to appeal is made in writing it must be signed by the appellant or the appellant's representative and must-

- (a) state the name and address of the appellant and of any representative of the appellant;
- (b) identify the decision and the tribunal to which the request for leave relates; and
- (c) state the grounds on which the appellant intends to rely in the appeal.

(5) Rhaid cofnodi penderfyniad y tribiwnlys ynghylch cais am ganiatâd i apelio, ynghyd â'r rhesymau dros hynny, mewn ysgrifen, a rhaid i'r tribiwnlys anfon copi o'r penderfyniad a'r rhesymau i'r apelydd ac i'r partïon eraill i'r cais sy'n wrthrych i'r apêl.

(6) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (5) gynnwys, fel bo'n briodol, ddatganiad ynghylch unrhyw ddarpariaeth statudol, rheol neu gyfarwyddyd mewn perthynas ag unrhyw gais pellach i'r Tribiwnlys Tiroedd am ganiatâd i apelio ac ynghylch yr amser a'r lle ar gyfer gwneud y cais pellach neu ar gyfer hysbysu ynghylch y bwriad i apelio.

### **Cymorth i gyfranogwyr**

**36.**-(1) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfranogwr" ("*participant*") yw unrhyw barti neu dyst neu unrhyw berson arall sy'n cymryd rhan mewn achos mewn perthynas â chais neu at yr hwn y cyfeirir gorchymyn gan y tribiwnlys.

(2) Os yw cyfranogwr yn analluog i ddarllen neu siarad neu ddeall yr iaith Saesneg neu'r iaith Gymraeg, rhaid i'r tribiwnlys wneud trefniadau i ddarparu ar gyfer y cyfranogwr, yn ddi-dâl, y cyfieithiadau a'r cymorth gan gyfieithydd sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r cyfranogwr i gymryd rhan yn effeithiol yn yr achos.

(3) Os yw cyfranogwr yn methu â chlywed neu siarad, rhaid i'r tribiwnlys wneud trefniadau i ddarparu ar gyfer y cyfranogwr, yn ddi-dâl, wasanaethau cyfieithydd iaith arwyddion, gwefuslefarydd neu palandeipydd i alluogi'r cyfranogwr i gymryd rhan yn effeithiol yn yr achos.

(4) Mae gan gyfranogwr hawl i gymorth o dan y rheoliad hwn pa un ai a yw wedi'i gynrychioli ai peidio.

(5) Rhaid i gyfranogwr y mae arno angen cymorth o dan y rheoliad hwn hysbysu'r tribiwnlys o'r angen hwnnw ar y cyfle cyntaf posibl.

### **Gofynion ynghylch darparu hysbysiadau a dogfennau**

**37.**-(1) Mae unrhyw ddogfen neu hysbysiad y mae'r Rheoliadau hyn yn ei awdurdodi neu yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu darparu i unrhyw berson, boed hynny gan y tribiwnlys, parti, neu unrhyw berson arall, wedi'i ddarparu'n briodol i'r person hwnnw-

- (a) os caiff ei anfon i gyfeiriad priodol y person drwy bost dosbarth cyntaf neu ddosbarthiad arbennig, neu ddanfoniad cofnodedig;
- (b) os caiff ei anfon mewn unrhyw ffordd arall i gyfeiriad priodol y person;
- (c) yn ddarostyngedig i baragraff (2), os caiff ei anfon, gyda chaniatâd ysgrifenedig y person, at y person hwnnw-
  - (i) drwy ffacs, e-bost neu ddull cyfathrebu

(5) The decision of the tribunal on a request for permission to appeal must be recorded in writing together with the reasons for it, and the tribunal must send a copy of the decision and reasons to the appellant and to the other parties to the application which is the subject of the appeal.

(6) A notification under paragraph (5) must, as appropriate, include a statement of any relevant statutory provision, rule or guidance relating to any further request to the Lands Tribunal for permission to appeal and of the time and place for making the further request or for giving notice of appeal.

### **Assistance to participants**

**36.**-(1) In this regulation "participant" ("*cyfranogwr*") means a party or witness or other person taking part in proceedings relating to an application or to whom an order of the tribunal is addressed.

(2) If a participant is unable to read or speak or understand the English language or Welsh, the tribunal must make arrangements for the participant to be provided, free of charge, with the necessary translations and assistance of an interpreter to enable the participant to participate effectively in the proceedings.

(3) If a participant is without hearing or speech, the tribunal must make arrangements for the participant to be provided, free of charge, with the services of a sign language interpreter, lip speaker, or palantypist, to enable the participant to participate effectively in the proceedings.

(4) A participant is entitled to assistance under this regulation whether or not the participant is represented.

(5) A participant who requires assistance under this regulation must at the earliest opportunity notify the requirement to the tribunal.

### **Requirements for supply of notices and documents**

**37.**-(1) Any document or notice required or authorised by these Regulations to be supplied to any person, whether by the tribunal, a party, or any other person, is duly supplied to that person-

- (a) if it is sent to the person's proper address by first class post or by special delivery, or by recorded delivery;
- (b) if it is delivered by any other means to the person's proper address;
- (c) subject to paragraph (2), if with the person's written consent it is sent to that person-
  - (i) by fax, email or other electronic

electronig arall sy'n cynhyrchu testun a geir mewn ffurf sy'n ddarllenadwy;

(ii) drwy wasanaeth danfon dogfennau preifat.

(2) At ddibenion paragraff (1)(c), ystyrir bod cynrychiolydd cyfreithiol y person wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig os dangosir y cyfeirnod neu'r cyfeiriad ar gyfer cyfathrebu drwy ffacs neu'n electronig neu drwy system danfon dogfennau preifat ar bapur ysgrifennu'r cynrychiolydd cyfreithiol.

(3) Cyfeiriad priodol person ar gyfer dibenion paragraff (1) yw-

- (a) yn achos y tribiwnlys, cyfeiriad swyddfa'r tribiwnlys;
- (b) yn achos cwmni corfforedig neu gorff arall sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig, cyfeiriad y swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r cwmni neu'r corff;
- (c) yn achos unrhyw berson arall, ei gyfeiriad arferol neu'r cyfeiriad olaf y gwyddys amdano ar ei gyfer.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys-

- (a) os bydd person sydd i fod i dderbyn dogfen neu hysbysiad-
  - (i) yn amhosibl ei ddarganfod ar ôl gwneud pob ymholiad dyfal;
  - (ii) wedi marw a heb unrhyw gynrychiolydd personol; neu
  - (iii) y tu allan i'r Deyrnas Unedig; neu
- (b) os am unrhyw reswm arall na ellir yn rhwydd ddarparu hysbysiad neu ddogfen arall yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(5) Pan fo paragraff (4) yn gymwys, caiff y tribiwnlys-

- (a) hepgor darparu'r hysbysiad neu'r ddogfen arall; neu
- (b) rhoi cyfarwyddiadau i gyflwyno'r hysbysiad neu'r ddogfen ym mha ffurf bynnag arall (pa un ai drwy hysbysebu mewn papur newydd neu fel arall) neu drwy ba ddull bynnag arall ag y tyb y tribiwnlys sy'n briodol.

(6) Pan fo'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol fod yn rhaid i barti ddarparu tystiolaeth fod y parti hwnnw wedi darparu dogfen i unrhyw berson, caiff y parti hwnnw fodloni'r gofyniad drwy ddarparu tystysgrif wedi'i lofnodi yn cadarnhau fod y ddogfen wedi'i chyflwyno'n unol â gofynion y rheoliad hwn.

## Amser

**38.** Pan fo'r amser a ddynodir gan y Rheoliadau hyn ar gyfer cyflawni unrhyw weithred yn dod i ben ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ar ddiwrnod o wyliau cyhoeddus, fe ystyrir ei fod yn dod i ben ar y diwrnod dilynol nesaf nad yw'n ddydd Sadwrn neu'n ddydd Sul neu'n ddiwrnod o wyliau cyhoeddus.

communication which produces a text received in legible form;

(ii) by a private document delivery service.

(2) For the purposes of paragraph (1)(c) a person's legal representative is deemed to have given written consent if the reference or address for the means of fax or electronic communication or private document delivery system is shown on the legal representative's notepaper.

(3) A person's proper address for the purposes of paragraph (1) is-

- (a) in the case of the tribunal, the address of the office of the tribunal;
- (b) in the case of an incorporated company or other body registered in the United Kingdom, the address of the registered or principal office of the company or body;
- (c) in the case of any other person the usual or last known address of that person.

(4) This paragraph applies where-

- (a) an intended recipient of a document or notice-
  - (i) cannot be found after all diligent enquiries have been made;
  - (ii) has died and has no personal representative; or
  - (iii) is out of the United Kingdom; or
- (b) for any other reason a notice or other document cannot readily be supplied in accordance with these Regulations.

(5) Where paragraph (4) applies, the tribunal may-

- (a) dispense with supplying the notice or other document; or
- (b) give directions for substituted service in such other form (whether by advertisement in a newspaper or otherwise) or manner as the tribunal thinks fit.

(6) Where it is required under the Act or these Regulations that a party must provide evidence that that party has supplied any person with a document, that party may satisfy the requirement by providing a signed certificate confirming that the document was served in accordance with the requirements of this regulation.

## Time

**38.** Where the time specified by these Regulations for doing any act expires on a Saturday or Sunday or public holiday, it is treated as expiring on the next following day which is not a Saturday or Sunday or public holiday.



### **Ceisiadau gwacsaw a blinderus**

**39.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan ymddengys i'r tribiwnlys fod cais yn wacsaw neu'n flinderus neu fel arall yn gamddefnydd o broses y tribiwnlys, caiff y tribiwnlys wrthod y cais yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(2) Cyn gwrthod cais o dan baragraff (1), rhaid i'r tribiwnlys hysbysu'r ceisydd o'i fwriad i wneud hynny yn unol â pharagraff (3).

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad o dan baragraff (2) ddatgan-

- (a) bod y tribiwnlys â'i fryd ar wrthod y cais;
- (b) y seiliau pam y mae â'i fryd ar wrthod y cais;
- (c) y dyddiad (heb fod yn llai na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad pryd yr anfonwyd yr hysbysiad) cyn y gall y tribiwnlys wrando ar y ceisydd ynghylch y cwestiwn a ddylid gwrthod y cais.

(4) Ni chaniateir gwrthod cais o dan baragraff (1) oni bai-

- (a) nad yw'r ceisydd yn gwneud cais i'r tribiwnlys cyn y dyddiad a grybwyllir ym mharagraff (3)(c); neu
- (b) pan fo'r ceisydd yn gwneud y fath gais, bod y tribiwnlys wedi gwrandao ar y ceisydd a'r ymatebydd, neu pa un bynnag ohonynt sy'n mynychu'r gwrandawriad, ar gwestiwn gwrthod y cais.

### **Afreoleidd-dra**

**40.** Nid yw unrhyw afreoleidd-dra sy'n deillio o fethiant gan barti i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn neu ag unrhyw gyfarwyddyd gan y tribiwnlys cyn bod y tribiwnlys wedi penderfynu ar y cais ohono'i hun yn gwneud yr achos yn ddi-rym.

### **Llofnodi dogfennau**

**41.** Pan fo'r Rheoliadau hyn yn gofyn fod dogfen yn cael ei llofnodi, bydd y gofyniad hwnnw wedi'i fodloni-

- (a) os bydd y llofnod un ai wedi'i ysgrifennu neu wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur neu ddull mecanyddol arall; a
- (b) bod enw'r llofnodydd yn ymddangos o dan y llofnod yn y fath fodd ag y gellir adnabod y llofnodydd.

### **Frivolous and vexatious applications**

**39.**-(1) Subject to paragraph (2), where it appears to the tribunal that an application is frivolous or vexatious or otherwise an abuse of process, the tribunal may dismiss the application in whole or in part.

(2) Before dismissing an application under paragraph (1) the tribunal must give notice of its intention to do so to the applicant in accordance with paragraph (3).

(3) Any notice under paragraph (2) must state-

- (a) that the tribunal is minded to dismiss the application;
- (b) the grounds on which it is minded to dismiss the application;
- (c) the date (being not less than 21 days after the date that the notice was sent) before which the applicant may be heard by the tribunal on the question of whether the application should be dismissed.

(4) An application may not be dismissed under paragraph (1) unless-

- (a) the applicant makes no request to the tribunal before the date mentioned in paragraph (3)(c) or
- (b) where the applicant makes such a request, the tribunal has heard the applicant and the respondent, or such of them as attend the hearing, on the question of the dismissal of the application.

### **Irregularities**

**40.** Any irregularity resulting from failure by a party to comply with any provision of these Regulations or of any direction of the tribunal before the tribunal has determined the application does not of itself render the proceedings void.

### **Signature of documents**

**41.** Where these Regulations require a document to be signed, that requirement is satisfied-

- (a) if the signature is either written or produced by computer or other mechanical means; and
- (b) the name of the signatory appears beneath the signature in such a way that the signatory may be identified.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

20 Mehefin 2006

20 June 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

rheoliad 2 a 6

regulation 2 and 6

Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

Additional details with regard to certain applications

**Ceisiadau yn ymwneud â hysbysiadau gwella**

1.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn hysbysiad gwella) heblaw cais y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) os mai sail neu un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai dyna'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

2.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10 o Atodlen 1 i'r Ddeddf sydd ar y sail a ddynodir ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen honno (sail apêl yn ymwneud â phersonau eraill), neu sy'n cynnwys y sail honno.

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;
- (c) os mai sail neu un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai dyna'r ffordd orau o weithredu;

(ch) enw a chyfeiriad unrhyw berson a ddylai, fel un o berchnogion y fangre, ym marn y ceisydd weithredu fel sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwella neu dalu'r cyfan neu ran o gostau'r gweithredu hwnnw ("y perchennog arall");

(d) prawf fod copi o'r cais wedi ei gyflwyno i'r perchennog arall;

(dd) datganiad yn cynnwys y manylion canlynol-

- (i) natur buddiant y perchennog arall yn y fangre;
- (ii) y rheswm pam y mae'r ceisydd yn tybio y dylai'r perchennog arall weithredu fel

**Applications relating to improvement notices**

1.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 10(1) of Schedule 1 to the Act (appeal against improvement notice) other than an application referred to in paragraph 2.

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the improvement notice (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) where the ground or one of the grounds of the application is that one of the courses of action mentioned in paragraph 12(2) of Schedule 1 to the Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course.

(3) The specified respondent is the LHA.

2.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 10 of Schedule 1 to the Act which consists of or includes the ground set out in paragraph 11(1) of that Schedule (ground of appeal relating to other persons).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the improvement notice (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons;
- (c) where one of the grounds of the application is that another course of action mentioned in paragraph 12(2) of Schedule 1 to the Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course;

(d) the name and address of any person who as an owner of the premises, in the applicant's opinion ought to take the action required by the improvement notice or pay the whole or part of the costs of taking that action ("the other owner");

(e) proof of service of a copy of the application on the other owner; and

(f) a statement containing the following details-

- (i) the nature of the other owner's interest in the premises;
- (ii) the reason the applicant considers the other owner ought to take the action concerned

hynny neu dalu'r cyfan neu ran o gost y gweithredu hwnnw; a

- (iii) pan mai sail y cais yw y dylai'r perchennog arall dalu'r cyfan neu ran o gost y gweithredu, amcangyfrif o'r gost honno o weithredu a'r gyfran o'r gost y mae'r ceisydd yn tybio y dylai'r perchennog arall ei thalu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

3.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 13(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu hysbysiad gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) copi o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

4.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan-

- (a) paragraff 11(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn galwad gan awdurdod tai lleol am adalu costau a ddaeth i ran yr awdurdod tai lleol wrth weithredu pan fo hysbysiad gwella wedi'i gyflwyno);
- (b) y paragraff hwnnw pan fydd wedi'i gymhwyso gydag addasiadau o dan adran 42 o'r Ddeddf (apêl yn erbyn galwad awdurdod tai lleol am ad-dalu costau a ddaeth i'w ran wrth gymryd camau adfer brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad gwella neu (yn ôl y digwydd) yr hysbysiad o weithredu adfer brys (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) yr hysbysiad o ddatganiad o resymau;
- (c) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan baragraff 4 o Atodlen 3 i'r Ddeddf (hysbysiad ynghylch bwriad awdurdod tai lleol i fynd i mewn i fangre i gymryd camau gweithredu penodol heb gytundeb);
- (ch) copi o alwad yr awdurdod tai lleol am gostau;
- (d) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir ym mharagraff 11(4) o'r Atodlen honno, manylion y cynnydd y dibynnir arno ei fod wedi'i wneud tuag at gydymffurfio â'r hysbysiad.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

or pay the whole or part of the cost of taking that action; and

- (iii) where the ground of the application is that the other owner ought to pay the whole or part of the cost of taking the action, the estimated cost of taking the action and the proportion of that cost which the applicant considers the other owner ought to pay.

(3) The specified respondent is the LHA.

3.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 13(1) of Schedule 1 to the Act (appeal against LHA's decision to vary or refuse to vary or revoke an improvement notice).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the improvement notice (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) a copy of the LHA's decision to vary or refuse to vary or revoke (including any documentation issued by the LHA in connection with its notice of decision).

(3) The specified respondent is the LHA.

4.-(1) This paragraph applies to an application under-

- (a) paragraph 11(1) of Schedule 3 to the Act (appeal against demand by the LHA for recovery of expenses incurred by LHA in taking action where improvement notice has been served); and
- (b) that paragraph as applied with modifications by section 42 of the Act (an appeal against a demand by the LHA for recovery of expenses incurred by taking emergency remedial action).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the improvement notice or (as the case may be) the notice of emergency remedial action (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons notice;
- (c) a copy of the notice served by the LHA under paragraph 4 of Schedule 3 to the Act (notice of LHA's intention to enter premises to carry out specified actions without agreement);
- (d) a copy of the LHA's demand for expenses; and
- (e) where the application is made on the ground mentioned in paragraph 11(4) of that Schedule, details of the progress relied upon as being made towards compliance with the notice.

(3) The specified respondent is the LHA.

## Ceisiadau yn ymwneud â gorchmynion gwahardd

5.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 22(9) o'r Ddeddf (cais yn erbyn gwrthodiad gan awdurdod tai lleol i gymeradwyo defnydd penodol o dan adran 22(4)).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchmyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i wrthod caniatáu defnydd penodol o'r cyfan neu ran o'r fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

6.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 34(2) o'r Ddeddf (cais gan lesydd neu lesdeiliad am orchymyn yn terfynu neu'n amrywio les pan fo gorchmyn gwahardd wedi dod yn weithredol).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchmyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;
- (c) copi o'r les berthnasol;
- (ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

7.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 7(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn gorchmyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchmyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) os mai un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd arall o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 8(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno a rhesymau'r ceisydd dros farnu mai dyna'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

8.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i amrywio neu i wrthod amrywio neu ddirymu gorchmyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchmyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;

## Applications relating to prohibition orders

5.-(1) This paragraph applies to an application under section 22(9) of the Act (appeal against LHA's refusal to give approval of particular use under section 22(4)).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) notice of the LHA's decision to refuse a particular use of the whole or part of the premises.

(3) The specified respondent is the LHA.

6.-(1) This paragraph applies to an application under section 34(2) of the Act (application by lessor or lessee for order determining or varying lease where a prohibition order has become operative).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons;
- (c) a copy of the relevant lease; and
- (d) a statement of the name and address of any other party to the lease and of any party to an inferior lease.

(3) The specified respondent is the other party to the lease.

7.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 7(1) of Schedule 2 to the Act (appeal against prohibition order).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) where one of the grounds of the application is that one of the courses of action mentioned in paragraph 8(2) of Schedule 2 to the Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course.

(3) The specified respondent is the LHA.

8.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 9(1) of Schedule 2 to the Act (appeal against LHA's decision to vary or refuse to vary or revoke a prohibition order).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the prohibition order (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and

- (c) copi o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i amrywio neu i wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw ddogfennau a ddosbarthwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

### **Ceisiadau'n ymwneud â gweithredu adfer brys**

**9.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 45(1) o'r Ddeddf (apêl gan berson y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan adran 41 o'r Ddeddf yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i gymryd camau gweithredu adfer brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad o weithredu adfer brys (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**10.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 45(2) o'r Ddeddf (apêl gan berson perthnasol yn erbyn gorchymyn gwahardd brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad o orchymyn gwahardd brys a wnaed o dan adran 43 o'r Ddeddf (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo); a
- (b) y datganiad o resymau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**11.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan-

- (a) paragraff 14 o Atodlen 3 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn i adennill treuliau a llog oddi wrth berson sy'n elwa o weithredu heb gytundeb); a
- (b) y paragraff hwnnw fel y'i cymhwysir gydag addasiadau gan adran 42 o'r Ddeddf.

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad o'r hysbysiad gwella neu, yn ôl y digwydd, yr hysbysiad o weithredu adfer brys (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau;
- (c) copi o'r galwad am dreuliau a gyflwynwyd o dan baragraff 9 o'r Atodlen honno;
- (ch) copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff 12 o'r Atodlen honno;
- (d) prawf fod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r person dan sylw fel y crybwyllir ym mharagraff 14(2) o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person y mae'r

- (c) a copy of the LHA's decision to vary or refuse to vary or revoke (including any documentation issued by the LHA in connection with its notice of decision).

(3) The specified respondent is the LHA.

### **Applications relating to emergency remedial action**

**9.**-(1) This paragraph applies to an application under section 45(1) of the Act (appeal by person upon whom a notice under section 41 of the Act has been served against LHA's decision to take emergency remedial action).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the notice of emergency remedial action (including any schedule to it); and
- (b) the statement of reasons.

(3) The specified respondent is the LHA.

**10.**-(1) This paragraph applies to an application under section 45(2) of the Act (appeal by relevant person against emergency prohibition order).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the notice of emergency prohibition order made under section 43 of the Act (including any schedule to it); and
- (b) the statement of reasons.

(3) The specified respondent is the LHA.

**11.**-(1) This paragraph applies to an application under-

- (a) paragraph 14 of Schedule 3 to the Act (application by LHA for order for recovery of expenses and interest from person profiting from the taking of action without agreement); and
- (b) that paragraph as applied with modifications by section 42 of the Act.

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the notice of the improvement notice or, as the case may be, the notice of emergency remedial action (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons;
- (c) a copy of the demand for expenses served under paragraph 9 of that Schedule;
- (d) a copy of any notice served under paragraph 12 of that Schedule; and
- (e) proof of service of notice of the application on the person concerned as mentioned in paragraph 14(2) of that Schedule.

(3) The specified respondent is the person from

awdurdod tai lleol yn ceisio adennill treuliau a llog oddi wrtho.

### **Ceisiadau'n ymwneud â gorchymynion dymchwel**

**12.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 269(1) o Ddeddf 1985 (apêl gan berson sydd wedi'i dramgwyddo gan orchymyn dymchwel).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) os mai sail neu un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd arall o weithredu a grybwyllir yn adran 269A(2) o Ddeddf 1985 yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno a rhesymau'r ceisydd dros farnu mai dyna'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**13.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(1) neu (2)(a) o Ddeddf 1985 (cais mewn perthynas ag adennill treuliau awdurdod tai lleol wrth weithredu gorchymyn dymchwel o dan adran 271 o Ddeddf 1985 gan gynnwys penderfynu ynghylch cyfraniadau gan berchnogion ar y cyd).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) datganiad yn nodi-
  - (i) y treuliau a ddaeth i ran yr awdurdod tai lleol o dan adran 271 o Ddeddf 1985 (gweithredu gorchymyn dymchwel);
  - (ii) y swm (os unrhyw beth) a godwyd drwy werthu deunyddiau; a
  - (iii) y swm y mae'r awdurdod tai lleol am ei adennill oddi wrth berson sy'n un o berchnogion y fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y fangre(1).

**14.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(2)(b) o Ddeddf 1985 (cais gan berchennog mangre am benderfyniad ynghylch y gyfran o dreuliau awdurdod tai lleol sydd i'w thalu gan berchennog arall).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

---

(1) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre.

whom the LHA seeks to recover expenses and interest.

### **Applications relating to demolition orders**

**12.**-(1) This paragraph applies to an application under section 269(1) of the 1985 Act (appeal by person aggrieved by demolition order).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it); and
- (b) the statement of reasons; and
- (c) where the ground or one of the grounds of the application is that one of the courses of action mentioned in section 269A(2) of the 1985 Act is the best course of action in relation to the hazard, a statement identifying that course of action with the applicant's reasons for considering it the best course.

(3) The specified respondent is the LHA.

**13.**-(1) This paragraph applies to an application under section 272(1) or (2)(a) of the 1985 Act (application in connection with recovery of LHA's expenses in executing demolition order under section 271 of the 1985 Act including determination of contributions by joint owners).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it);
- (b) the statement of reasons; and
- (c) a statement of-
  - (i) the expenses incurred by the LHA under section 271 of the 1985 Act (execution of demolition order);
  - (ii) the amount (if any) realised by the sale of materials; and
  - (iii) the amount the LHA seeks to recover from an owner of the premises.

(3) The specified respondent is the owner of the premises(1).

**14.**-(1) This paragraph applies to an application under section 272(2)(b) of the 1985 Act (application by owner of premises for determination of contribution to LHA's expenses to be paid by another owner).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it);

---

(1) *See* section 322 of the 1985 Act which defines "owner" in relation to premises.

- (b) y datganiad o resymau; ac
- (c) datganiad o beth yw-
  - (i) buddiant pob un o'r perchnogion yn y fangre; a
  - (ii) dyletswyddau ac atebolrwyddau pob un o'r perchnogion mewn perthynas â chynnal a chadw ac atgyweirio o dan unrhyw gyfamod neu gytundeb, boed hwnnw'n ddatganedig neu ymhlyg.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog y mae'r ceisydd yn ceisio cyfraniad ganddo tuag at dreuliau'r awdurdod tai lleol.

**15.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 317(1) o Ddeddf 1985 (cais gan lesydd neu lesddeiliad mangre y mae gorchymyn dymchwel wedi dod yn weithredol ar ei chyfer, am orchymyn yn amrywio neu'n terfynu'r les).

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
  - (a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);
  - (b) y datganiad o resymau;
  - (c) copi o'r les berthnasol; ac
  - (ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

### Cais yn ymwneud â gwaith ar fangre anaddas

**16.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 318(1) o Ddeddf 1985 (cais gan berson sydd â buddiant mewn mangre am i dribiwnlys awdurdodi cyflawni gwaith ar fangre anaddas neu ar gyfer gwella).

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
  - (a) manylion y gwaith y mae'r ceisydd yn bwriadu ei wneud yn cynnwys-
    - (i) enwau a chyfeiriadau contractwyr arfaethedig pan fo hynny'n berthnasol;
    - (ii) amcangyfrif o gostau'r gwaith; a
    - (iii) amserlen ar gyfer cychwyn a chwblhau'r gwaith;
  - (b) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir yn adran 318(1)(b) o Ddeddf 1985, manylion-
    - (i) y cynllun gwella neu ailadeiladu y mae'r ceisydd yn dymuno ei gyflawni; a
    - (ii) cymeradwyaeth yr awdurdod tai lleol i'r cynllun.

- (b) the statement of reasons; and
- (c) a statement of-
  - (i) the owners' respective interests in the premises; and
  - (ii) their respective obligations and liabilities in respect of maintenance and repair under any covenant or agreement, whether express or implied.

(3) The specified respondent is the owner from whom the applicant seeks a contribution to the LHA's expenses.

**15.**-(1) This paragraph applies to an application under section 317(1) of the 1985 Act (application by lessor or lessee of premises in respect of which demolition order has become operative, for an order varying or determining the lease).

- (2) The specified documents are-
  - (a) a copy of the demolition order made under section 265 of the 1985 Act (including any schedule to it);
  - (b) the statement of reasons;
  - (c) a copy of the relevant lease; and
  - (d) a statement of the name and address of any other party to the lease and of any party to an inferior lease.

(3) The specified respondent is the other party to the lease.

### Application relating to work on unfit premises

**16.**-(1) This paragraph applies to an application under section 318(1) of the 1985 Act (application by person with interest in premises for authorisation by tribunal of execution of works on unfit premises or for improvement).

- (2) The specified documents are-
  - (a) details of the work which the applicant proposes to carry out including-
    - (i) names and addresses of proposed contractors where relevant;
    - (ii) an estimate of the costs of the work; and
    - (iii) a timetable for starting and completing the work;
  - (b) where the application is made on the ground mentioned in section 318(1)(b) of the 1985 Act, details of-
    - (i) the scheme of improvement or reconstruction which the applicant wishes to carry out; and
    - (ii) the LHA's approval of the scheme.



(c) datganiad o sefyllfa ariannol y ceisydd yn cynnwys datgelu faint o arian sydd ar gael i dalu costau arfaethedig y gwaith;

(ch) pan fo'r cais yn cynnwys cais am orchymyn i derfynu les a ddelir oddi wrth y ceisydd neu les ddeilliannol, copi o'r les honno.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw-

(a) y person sydd â'r hawl i'r meddiant o'r fangre;

(b) perchennog y fangre(1).

### **Ceisiadau'n ymwneud â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth**

17.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 62(7) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn gwrthodiad gan awdurdod tai lleol i gyflwyno hysbysiad esemptio dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

(a) copi o'r hysbysiad i'r awdurdod tai lleol o dan adran 62(1) o'r Ddeddf; a

(b) copi o'r hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod tai lleol o dan adran 62(6) o'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

18.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 73(5) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

(a) Pan wneir y cais gan yr awdurdod tai lleol-

(i) copi o'r hysbysiad o'r bwriad i ddwyn achos o dan adran 73(7);

(ii) copi o unrhyw sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r hysbysiad;

(iii) un ai-

(aa) datganiad yn cynnwys y manylion y dibynnir arnynt ar gyfer gwneud yr honiad fod trosedd o dan adran 72(1) wedi'i chyflawni; neu

(bb) pan fo'r awdurdod tai lleol yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 74 o'r Ddeddf, prawf fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 72(1) o'r Ddeddf; a

(iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai a dalwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn perthynas â meddiant y fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir i drosedd o'r fath gael ei chyflawni; neu

(c) a statement of the financial standing of the applicant including disclosure of funds available to meet the estimated costs of the work;

(d) where the application includes a request for an order determining a lease held from the applicant or a derivative lease, a copy of that lease.

(3) The specified respondents are-

(a) the person with a right to possession of the premises;

(b) the owner of the premises(1).

### **Applications relating to HMO licensing**

17.-(1) This paragraph applies to an application under section 62(7) of the Act (appeal against refusal by LHA to serve a temporary exemption notice).

(2) The specified documents are-

(a) a copy of the notification to the LHA under section 62(1) of the Act; and

(b) a copy of the LHA's decision notice under section 62(6) of the Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

18.-(1) This paragraph applies to an application under section 73(5) of the Act (application by LHA or occupier for rent repayment order).

(2) The specified documents are-

(a) where the application is made by the LHA-

(i) a copy of the notice of intending proceedings under section 73(7);

(ii) a copy of any representation received in respect of the notice;

(iii) either-

(aa) a statement containing the details relied on in making the allegation that an offence under section 72(1) of the Act was committed; or

(bb) where the LHA relies on the provisions of section 74 of the Act, proof that the appropriate person has been convicted of an offence under section 72(1) of the Act; and

(iv) a document showing the housing benefit paid by the LHA in connection with occupation of the premises during the period in which it is alleged such an offence was committed; or

(1) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre.

(1) *See* section 322 of the 1985 Act which defines "owner" in relation to premises.

- (b) pan wneir y cais gan feddiannydd-
- (i) tystiolaeth fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 72(1) o'r Ddeddf neu y mynnwyd iddo drwy orchymyn ad-dalu rhent i wneud taliad mewn perthynas â budd-dal tai; a
  - (ii) tystiolaeth fod y meddiannydd wedi gwneud taliadau cyfnodol mewn perthynas â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir fod trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol (1).

**19.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 255(9) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i gyflwyno datganiad tai amlfeddiannaeth).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r datganiad tai amlfeddiannaeth.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**20.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 256(4) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i wrthod dirymu datganiad tai amlfeddiannaeth).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r datganiad tai amlfeddiannaeth; a
- (b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i beidio â dirymu datganiad tai amlfeddiannaeth.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**21.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31(1) o Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i ganiatáu, neu beidio â chaniatáu, trwydded o dan Ran 2 o'r Ddeddf, neu yn erbyn unrhyw un o amodau'r drwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu ag amodau trwydded-
  - (i) copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno; a
  - (ii) copi o'r drwydded; a
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

(b) where the application is made by an occupier-

- (i) evidence that the appropriate person has been convicted of an offence under section 72(1) of the Act or has been required by a rent repayment order to make a payment in respect of housing benefit; and
- (ii) evidence that the occupier has paid periodical payments in respect of occupation of the premises during a period which it is alleged that such an offence was being committed.

(3) The specified respondent is the appropriate person(1).

**19.**-(1) This paragraph applies to an application under section 255(9) of the Act (appeal against decision of LHA to serve an HMO declaration).

(2) The specified document is a copy of the HMO declaration.

(3) The specified respondent is the LHA.

**20.**-(1) This paragraph applies to an application under section 256(4) of the Act (appeal against decision of LHA to refuse to revoke HMO declaration).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the HMO declaration; and
- (b) a copy of the LHA's notice of decision not to revoke the HMO declaration.

(3) The specified respondent is the LHA.

**21.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 31(1) of Schedule 5 to the Act (appeal against decision by LHA to grant, or refuse to grant, a licence under Part 2 of the Act, or against any of the terms of the licence).

(2) The specified documents are-

- (a) where the application relates to the grant or terms of a licence-
  - (i) a copy of the LHA's notices under paragraphs 1 and 7 of Schedule 5, and of any notice under paragraph 3 of that Schedule; and
  - (ii) a copy of the licence; and
- (b) where the application relates to a refusal to grant a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 5 and 8 of that Schedule.

(3) The specified respondent is the LHA.

(1) *Gweler* adran 73(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffiniad o "the appropriate person".

(1) *See* section 73(1) of the Act for the definition of "the appropriate person".

22.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan paragraff 32(1) o Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl gan ddeiliad trwydded neu unrhyw berson perthnasol yn erbyn penderfyniad gan awdurdod tai lleol ynglŷn ag amrywio neu ddirymu trwydded o dan Ran 2 o'r Ddeddf).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 a 16 o Atodlen 5;
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i wrthod amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 19 a 21 o'r Atodlen honno;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 22 a 24 o'r Atodlen honno;
- (ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 26 a 28 o'r Atodlen honno; a
- (d) ym mhob achos, copi o'r drwydded.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

#### **Ceisiadau'n ymwneud â thrwyddedu dethol parthed llety preswyl arall**

23.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 86(7) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn gwrthodiad gan yr awdurdod tai lleol i gyflwyno hysbysiad esemptio dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad i'r awdurdod tai lleol o dan adran 86(1) o'r Ddeddf; a
- (b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad o dan adran 86(6) o'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

24.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 96(5) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan wneir y cais gan yr awdurdod tai lleol-
  - (i) copi o'r hysbysiad o'r achos arfaethedig o dan adran 96(7);
  - (ii) copi o unrhyw sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r hysbysiad;
  - (iii) un ai-
    - (aa) datganiad yn cynnwys y manylion y dibynnir arnynt ar gyfer gwneud yr honiad fod trosedd o dan adran 95(1) o'r Ddeddf wedi'i chyflawni; neu

22.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 32(1) of Schedule 5 to the Act (appeal by licence holder or any relevant person against decision by LHA with regard to the variation or revocation of licence under Part 2 of the Act).

(2) The specified documents are-

- (a) where the application relates to a decision to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of Schedule 5;
- (b) where the application relates to refusal to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 19 and 21 of that Schedule;
- (c) where the application relates to a decision to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 22 and 24 of that Schedule;
- (d) where the application relates to refusal to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 26 and 28 of that Schedule; and
- (e) in all cases a copy of the licence.

(3) The specified respondent is the LHA.

#### **Applications relating to selective licensing of other residential accommodation**

23.-(1) This paragraph applies to an application under section 86(7) of the Act (appeal against refusal by the LHA to serve a temporary exemption notice).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the notification to the LHA under section 86(1) of the Act; and
- (b) a copy of the LHA's decision notice under section 86(6) of the Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

24.-(1) This paragraph applies to an application under section 96(5) of the Act (application by LHA or occupier for a rent repayment order).

(2) The specified documents are-

- (a) where the application is made by the LHA-
  - (i) a copy of the notice of intended proceedings under section 96(7);
  - (ii) a copy of any representation received in respect of the notice;
  - (iii) either-
    - (aa) a statement containing the details relied on in making the allegation that an offence under section 95(1) of the Act was committed; or

(bb) pan fo'r awdurdod tai lleol yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 97 o'r Ddeddf, prawf fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 95(1) o'r Ddeddf; a

(iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai a dalwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn perthynas â meddiant y fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir i drosedd o'r fath gael ei chyflawni; neu

(b) pan wneir y cais gan feddiannydd-

- (i) tystiolaeth fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 95(1) o'r Ddeddf neu wedi'i orchymyn drwy orchymyn ad-dalu rhent i wneud taliad mewn perthynas â budd-dal tai; a
- (ii) tystiolaeth fod y meddiannydd wedi gwneud taliadau cyfnodol mewn perthynas â meddiant o'r fangre yn ystod cyfnod pryd yr honnir fod trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol(1).

**25.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i ganiatáu, neu wrthod caniatáu, trwydded o dan Ran 3, neu yn ymwneud ag amodau trwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu ag amodau trwydded-
  - (i) copi o hysbysiadu'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno;
  - (ii) copi o'r drwydded; a
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadu'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**26.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(1) o dan Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl gan ddeiliad trwydded neu berson perthnasol yn erbyn penderfyniad gan awdurdod tai lleol ynglŷn ag amrywio neu ddirymu trwydded o dan Ran 3 o'r Ddeddf.

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadu'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 5;

(bb) where the LHA relies on the provisions of section 97 of the Act, proof that the appropriate person has been convicted of an offence under section 95(1) of the Act; and

(iv) a document showing the housing benefit paid by the LHA in connection with occupation of the premises during the period in which it is alleged such an offence was committed; or

(b) where the application is made by an occupier-

- (i) evidence that the appropriate person has been convicted of an offence under section 95(1) of the Act or has been required by a rent repayment order to make a payment in respect of housing benefit; and
- (ii) evidence that the occupier has paid periodical payments in respect of occupation of the premises for a period during which it is alleged that such an offence was being committed.

(3) The specified respondent is the appropriate person(1).

**25.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 31 of Schedule 5 to the Act (appeal against decision by LHA to grant or refuse licence under Part 3 or relating to terms of licence).

(2) The specified documents are-

- (a) where the application relates to the grant or terms of a licence-
  - (i) a copy of the LHA's notices under paragraphs 1 and 7 of Schedule 5, and of any notice under paragraph 3 of that Schedule; and
  - (ii) a copy of the licence; and
- (b) where the application relates to a refusal to grant a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 5 and 8 of that Schedule.

(3) The specified respondent is the LHA.

**26.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 32(1) of Schedule 5 to the Act (appeal by licence holder or relevant person against decision by LHA relating to variation or revocation of licence under Part 3 of the Act).

(2) The specified documents are-

- (a) where the application relates to a decision to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of Schedule 5;

---

(1) *Gweler* adran 73(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffiniad o "the appropriate person".

---

(1) *See* section 73(1) of the Act for the definition of "the appropriate person".

- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 19 a 21 o'r Atodlen honno;
  - (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 22 a 24 o'r Atodlen honno;
  - (ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 26 a 28 o'r Atodlen honno; a
  - (d) ym mhob achos, copi o'r drwydded.
- (3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**Ceisiadau'n ymwneud â gorchmynion rheoli dros dro a gorchmynion rheoli terfynol**

27.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(4) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli dros dro).

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
  - (a) copi o'r gorchymyn drafft;
  - (b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys o-
    - (i) a yw'r amod iechyd a diogelwch yn adran 104 o'r Ddeddf wedi'i fodloni; a
    - (ii) y graddau y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer a gymeradwywyd o dan adran 233 o'r Ddeddf; a
    - (iii) pan fo'r awdurdod tai lleol yn gofyn am ymdrin â'r cais fel mater brys o dan reoliad 9, datganiad sy'n rhoi digon o fanylion i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynghylch a yw'n ymddangos fod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw'n bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol yn ôl y diffiniad o "relevant person" ym mharagraff 8(4) a pharagraff 35 o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

28.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(7) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli dros dro mewn perthynas â thŷ y mae adran 103 o'r Ddeddf yn gymwys iddo).

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
  - (a) copi o'r gorchymyn drafft;
  - (b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys ynghylch a yw'r amodau yn adran 103(3) a (4) o'r Ddeddf wedi'u bodloni; ac

- (b) where the application relates to refusal to vary a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 19 and 21 of that Schedule;
  - (c) where the application relates to a decision to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 22 and 24 of that Schedule;
  - (d) where the application relates to refusal to revoke a licence, a copy of the LHA's notices under paragraphs 26 and 28 of that Schedule; and
  - (e) in any case, a copy of the licence.
- (3) The specified respondent is the LHA.

**Applications relating to interim and final management orders**

27.-(1) This paragraph applies to an application under section 102(4) of the Act (LHA application for authorisation to make an interim management order).

- (2) The specified documents are-
  - (a) a copy of the draft order;
  - (b) a statement of matters relevant to the tribunal's consideration of-
    - (i) whether the health and safety condition in section 104 of the Act is satisfied; and
    - (ii) the extent to which any applicable code of practice approved under section 233 of the Act has been complied with; and
    - (iii) where the LHA requests that the application be dealt with as a matter of urgency under regulation 9, a statement giving sufficient details to enable the tribunal to form an opinion as to whether the exceptional circumstances mentioned in paragraph (3) of that regulation appear to exist.

(3) The specified respondent is a relevant person as defined in paragraph 8(4) and paragraph 35 of Schedule 6 of the Act.

28.-(1) This paragraph applies to an application under section 102(7) of the Act (LHA application for authorisation to make an interim management order in respect of a house to which section 103 of the Act applies).

- (2) The specified documents are-
  - (a) a copy of the draft order;
  - (b) a statement of matters relevant to the tribunal's consideration as to whether the conditions in section 103(3) and (4) are satisfied; and

- (c) pan fo'r awdurdod tai lleol yn gofyn am ymddiriedolaeth fel mater brys o dan reoliad 9, datganiad sy'n rhoi digon o fanylion i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynghylch a yw'r amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw'n bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol fel y'i diffinnir ym mharagraff 8(4) a pharagraff 35 o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

**29.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 105(10) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am i orchymyn rheoli dros dro barhau mewn grym hyd y byddir wedi ymddiriedolaeth ag apêl);

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli dros dro; a  
(b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**30.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 110(7) o'r Ddeddf (cais gan landlord perthnasol am orchymyn mewn perthynas â threfniadau ariannol tra bo gorchymyn rheoli dros dro mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli dros dro;  
(b) copi o'r cyfrifon a gadwyd gan yr awdurdod tai lleol yn unol ag adran 110(6).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**31.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 114(7) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes barhau mewn grym tra disgwylir ymddiriedolaeth ag apêl yn erbyn gorchymyn rheoli terfynol newydd).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes;  
(b) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol newydd a wnaed i ddisodli'r gorchymyn hwnnw; ac  
(c) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud y gorchymyn rheoli terfynol newydd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**32.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 120(1) o'r Ddeddf (cais gan berson yr effeithir arnynt am orchymyn bod yr awdurdod tai lleol yn rheoli yn unol â'r cynllun rheoli yn y gorchymyn rheoli terfynol).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn

- (c) where the LHA requests that the application be dealt with as a matter of urgency under regulation 9, a statement giving sufficient details to enable the tribunal to form an opinion as to whether the exceptional circumstances mentioned in paragraph (3) of that regulation appear to exist.

(3) The specified respondent is a relevant person as defined in paragraph 8(4) and paragraph 35 of Schedule 6 to the Act.

**29.**-(1) This paragraph applies to an application under section 105(10) of the Act (LHA application for order that an interim management order continue in force pending disposal of appeal).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the interim management order; and  
(b) a copy of the notice of appeal under paragraph 24 of Schedule 6 to the Act against the making of a final management order.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

**30.**-(1) This paragraph applies to an application under section 110(7) of the Act (application by relevant landlord for order regarding financial arrangements while interim management order in force).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the interim management order;  
(b) a copy of the accounts kept by the LHA in accordance with section 110(6).

(3) The specified respondent is the LHA.

**31.**-(1) This paragraph applies to an application under section 114(7) of the Act (LHA application for order that existing final management order continue in force pending disposal of appeal against new final management order).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the existing final management order;  
(b) a copy of the new final management order made in order to replace it; and  
(c) a copy of the notice of appeal under paragraph 24 of Schedule 6 to the Act against the making of the new final management order.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

**32.**-(1) This paragraph applies to an application under section 120(1) of the Act (application by an affected person for order that LHA manage in accordance with management scheme in final management order).

(2) The specified document is a copy of the final

rheoli terfynol sy'n cynnwys y cynllun rheoli y mae'r cais yn cyfeirio ato.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**33.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 126(4) o'r Ddeddf (cais am addasu hawliau ac atebolrwyddau mewn perthynas â dodrefn a freinir yn yr awdurdod tai lleol tra bo gorchymyn rheoli mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli perthnasol; a
- (b) datganiad yn rhoi manylion hawliau ac atebolrwyddau (yn cynnwys perchnogaeth) pob un o'r personau sydd â buddiant yn y dodrefn.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person arall sydd â buddiant yn y dodrefn.

**34.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 130(9) o'r Ddeddf (cais i benderfynu pwy yw "y landlord perthnasol" ("*the relevant landlord*") at ddibenion adran 130 pan ddaw'r gorchymyn rheoli i ben).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r landlord perthnasol arall<sup>(1)</sup>.

**35.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan paragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli, neu yn erbyn amodau'r gorchymyn neu'r cynllun rheoli cysylltiedig).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli (yn cynnwys y cynllun rheoli);
- (b) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan baragraff 7(2)(b) o Atodlen 6 i'r Ddeddf;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud ag amodau'r gorchymyn rheoli, datganiad sy'n pennu pob amod a wrthwynebir, ynghyd â'r rhesymau dros y gwrthwynebiad; ac
- (ch) pan wneir y cais ar y sail a ddynodir ym mharagraff 24(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, datganiad o'r materion yn adran 110(5) (sy'n ymwneud â thalu rhenti dros ben ac ati) sy'n berthnasol i'r sail honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**36.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 28 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad neu wrthodiad awdurdod tai lleol i amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli neu wrthodiad i newid neu ddirymu'r fath orchymyn).

management order which contains the management scheme to which the application relates.

(3) The specified respondent is the LHA.

**33.**-(1) This paragraph applies to an application under section 126(4) of the Act (application for adjustment of rights and liabilities with regard to furniture vested in LHA while management order in force).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the relevant management order; and
- (b) a statement giving details of the respective rights and liabilities (including ownership) of the persons interested in the furniture.

(3) The specified respondent is the other person interested in the furniture.

**34.**-(1) This paragraph applies to an application under section 130(9) of the Act (application to determine who is "the relevant landlord" ("*y landlord perthnasol*") for the purposes of section 130 on termination of management order).

(2) The specified document is a copy of the management order.

(3) The specified respondent is the other relevant landlord<sup>(1)</sup>.

**35.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 24 of Schedule 6 to the Act (appeal against making of a management order, or against the terms of the order or of associated management scheme).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the management order (including the management scheme);
- (b) a copy of the notice served by the LHA under paragraph 7(2)(b) of Schedule 6 to the Act;
- (c) where the application relates to the terms of the management order, a statement specifying each term to which objection is made, with reasons for the objection; and
- (d) where the application is made on the ground specified in paragraph 24(3) of Schedule 6 to the Act, a statement of the matters in section 110(5) (which relates to payments of surplus rents etc) relevant to that ground.

(3) The specified respondent is the LHA.

**36.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 28 of Schedule 6 to the Act (appeal against LHA's decision or refusal to vary or revoke management order).

<sup>(1)</sup> *Gweler* adran 130(11) ar gyfer diffiniad o "relevant landlord".

<sup>(1)</sup> *See* section 130(11) for the definition of "relevant landlord".

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 6;
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 ac 16 o'r Atodlen honno;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 17 ac 19 o'r Atodlen honno; ac
- (ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 20 a 22 o'r Atodlen honno; a
- (d) ym mhob achos-
  - (i) copi o'r gorchymyn rheoli; a
  - (ii) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan baragraff 7(2)(b) o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

37.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(2) o Atodlen 6 i'r Ddeddf (apêl gan drydydd parti yn erbyn penderfyniad gan awdurdod tai lleol o dan adran 128 o'r Ddeddf ynghylch yr iawndal sy'n daladwy i drydydd partion).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli (yn cynnwys y cynllun rheoli);
- (b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag adran 128(2) o'r Ddeddf; ac
- (c) datganiad yn rhoi manylion llawn-
  - (i) yr hawliau yr honnir y bu tarfu arnynt o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli; a
  - (ii) swm yr iawndal a hawlir oherwydd y tarfu hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

### **Ceisiadau mewn perthynas â gorchymynion rheoli anheddau gwag**

38.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 133(1) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am awdurdodiad i wneud gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r drafft o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro;
- (b) datganiad o dystiolaeth-

(2) The specified documents are-

- (a) where the application relates to a decision to vary a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 9 and 11 of Schedule 6;
- (b) where the application relates to refusal to vary a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of that Schedule;
- (c) where the application relates to a decision to revoke a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 17 and 19 of that Schedule; and
- (d) where the application relates to refusal to revoke a management order, a copy of the LHA's notices under paragraphs 20 and 22 of that Schedule; and
- (e) in any case-
  - (i) a copy of the management order; and
  - (ii) a copy of the notice served by the LHA under paragraph 7(2)(b) of Schedule 6 to the Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

37.-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 32(2) of Schedule 6 to the Act (appeal by third party against LHA's decision under section 128 of the Act regarding compensation payable to third parties).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the management order (including the management scheme);
- (b) a copy of the LHA's notification of its decision to the third party in accordance with section 128(2) of the Act; and
- (c) a statement giving full details of-
  - (i) the rights in respect of which it is claimed that there has been interference in consequence of the management order; and
  - (ii) the amount of compensation claimed in respect of that interference.

(3) The specified respondent is the LHA.

### **Applications in relation to empty dwelling management orders**

38.-(1) This paragraph applies to an application under section 133(1) of the Act (LHA application for authorisation to make interim EDMO).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the draft interim EDMO;
- (b) a statement of evidence-



- (i) ynghylch y materion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys gael ei fodloni yn eu cylch o dan adran 134(2) o'r Ddeddf;
  - (ii) fod yr awdurdod tai lleol wedi ystyried yr hawliau a'r buddiannau a ddynodir yn adran 133(4) o'r Ddeddf; ac
- (c) pan fo'r awdurdod tai lleol, yn unol ag adran 133(3) o'r Ddeddf, wedi hysbysu'r perchennog perthnasol ei fod yn ystyried gwneud gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro, copi o'r hysbysiad hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog perthnasol(1).

**39.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 138(1) o'r Ddeddf (cais, tra bo gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro mewn grym, am orchymyn fod awdurdod tai lleol yn talu iawndal i drydydd parti am darfu ar ei hawliau).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro (yn cynnwys y cynllun rheoli);
- (b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag adran 138(4) o'r Ddeddf; ac
- (c) datganiad yn rhoi manylion llawn-
  - (i) yr hawliau yr honnir y bu tarfu arnynt o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a
  - (ii) swm yr iawndal a hawlr oherwydd y tarfu hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**40.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 1(7) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro barhau mewn grym hyd y byddir wedi ymdrin ag apêl o dan baragraff 26 o'r Atodlen honno).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a
- (b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 26 o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**41.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 2(3)(d) neu baragraff 10(3)(d) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn o dan baragraff 22 o'r Atodlen honno'n terfynu les neu drwydded tra bo gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol mewn grym).

- (i) in respect of the matters as to which the tribunal must be satisfied under section 134(2) of the Act;
  - (ii) of the LHA's consideration of the rights and interests specified in section 133(4) of the Act; and
- (c) where the LHA in accordance with section 133(3) of the Act notified the relevant proprietor that it was considering making an interim EDMO, a copy of the notification.

(3) The specified respondent is the relevant proprietor(1).

**39.**-(1) This paragraph applies to an application under section 138(1) of the Act (application while interim EDMO in force for order that the LHA pay compensation to third party for interference with rights).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the interim EDMO (including the management scheme);
- (b) a copy of the LHA's notification of its decision to the third party in accordance with section 138(4) of the Act; and
- (c) a statement giving full details of-
  - (i) the rights in respect of which it is claimed that there has been interference in consequence of the interim EDMO; and
  - (ii) the amount of compensation claimed in respect of that interference.

(3) The specified respondent is the LHA.

**40.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 1(7) of Schedule 7 to the Act (LHA application for order that interim EDMO continue in force pending disposal of appeal under paragraph 26 of that Schedule).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the interim EDMO; and
- (b) a copy of the notice of appeal under paragraph 26 of Schedule 7 to the Act against the making of an interim EDMO.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

**41.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 2(3)(d) or paragraph 10(3)(d) of Schedule 7 to the Act (LHA's application for order under paragraph 22 of that Schedule determining a lease or licence while interim or final EDMO is in force).

(1) *Gweler* adran 132(4)(c) ar gyfer y diffiniad o "relevant proprietor".

(1) *See* section 132(4)(c) for the definition of "relevant proprietor".

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol (yn cynnwys unrhyw gynllun rheoli);
  - (b) copi o'r les neu'r drwydded berthnasol, neu os nad yw honno ar gael, tystiolaeth o fodolaeth y les neu'r drwydded; ac
  - (c) datganiad yn cynnwys y manylion canlynol-
    - (i) enw a chyfeiriad, pan fyddant yn wybyddus, unrhyw lesydd, lesddeiliad, is-lesydd, is-lesddeiliad, neu drwyddedai;
    - (ii) tystiolaeth o faterion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys gael ei fodloni yn eu cylch o dan baragraff 22(1)(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf; a
    - (iii) swm yr iawndal (os unrhyw beth) y mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon ei dalu o ganlyniad i derfynu'r les neu'r drwydded, yn cynnwys manylion ynghylch sut y cyfrifwyd yr iawndal hwnnw.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw'r partïon i'r les neu'r drwydded.

**42.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 5(7) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan berchennog perthnasol am orchymyn mewn cysylltiad â threfniadau ariannol tra bo gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro mewn grym).

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a
  - (b) copi o'r cyfrifon a gedwir gan yr awdurdod tai lleol yn unol â pharagraff 5(6) o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**43.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol barhau mewn grym hyd y byddir wedi ymdrin ag apêl o dan baragraff 26).

- (2) Y dogfennau penodedig yw-
- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a
  - (b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 26 o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**44.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 14(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan berson yr effeithir arnynt am orchymyn fod awdurdod tai lleol i reoli annedd yn unol â chynllun rheoli mewn gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol (yn cynnwys y cynllun rheoli).

- (2) The specified documents are-
- (a) a copy of the interim or final EDMO (including any management scheme);
  - (b) a copy of the relevant lease or licence, or if not available evidence of the existence of the lease or licence; and
  - (c) a statement containing the following details-
    - (i) the name and address where known of any lessor, lessee, sub-lessor, sub-lessee or licensee;
    - (ii) evidence of matters in respect of which the tribunal must be satisfied under paragraph 22(1)(b) of Schedule 7 to the Act; and
    - (iii) the amount of compensation (if any) which the LHA is willing to pay in respect of the determination of the lease or licence, including details of how such compensation has been calculated.

(3) The specified respondents are the parties to the lease or licence.

**42.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 5(7) of Schedule 7 to the Act (application by relevant proprietor for order in connection with financial arrangements while interim EDMO in force).

- (2) The specified documents are-
- (a) a copy of the interim EDMO; and
  - (b) a copy of the accounts kept by the LHA in accordance with paragraph 5(6) of Schedule 7 to the Act.

(3) The specified respondent is the LHA.

**43.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 9(8) of Schedule 7 to the Act (application by LHA for order that final EDMO should continue in force pending disposal of an appeal under paragraph 26).

- (2) The specified documents are-
- (a) a copy of the interim EDMO; and
  - (b) a copy of the notice of appeal under paragraph 26 of Schedule 7 to the Act against the making of a final EDMO.

(3) The specified respondent is the applicant who has made the relevant appeal.

**44.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 14(1) of Schedule 7 to the Act (application by affected person for order that LHA manage dwelling in accordance with management scheme in final EDMO).

(2) The specified document is a copy of the final EDMO (including the management scheme).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**45.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 26(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i wneud gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol neu yn erbyn amodau'r gorchymyn neu'r cynllun rheoli cysylltiedig).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol (yn cynnwys y cynllun rheoli);
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud ag amodau'r gorchymyn rheoli, datganiad yn pennu pob amod a wrthwynebir, ynghyd â'r rhesymau dros y gwrthwynebiad; ac
- (c) pan wneir y cais ar y sail a bennir ym mharagraff 26(1)(c) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, datganiad o'r materion ym mharagraff 5(5)(a) a (b) (sy'n ymwneud â thalu rhenti dros ben etc) sy'n berthnasol i'r sail honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**46.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 30 o Atodlen 7 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol neu wrthodiad i amrywio neu ddirymu gorchymyn o'r fath).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (fel y'u cymhwysir gan baragraff 17 o Atodlen 7);
- (b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 ac 16 o'r Atodlen honno;
- (c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 17 ac 19 o'r Atodlen honno; ac
- (ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 20 a 22 o'r Atodlen honno; a
- (d) ym mhob achos copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol (yn ôl y digwydd).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

(3) The specified respondent is the LHA.

**45.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 26(1) of Schedule 7 to the Act (appeal against LHA's decision to make final EDMO or against terms of the order or of associated management scheme).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the final EDMO (including the management scheme);
- (b) where the application relates to the terms of the management order, a statement specifying each term to which objection is made, with reasons for the objection; and
- (c) where the application is made on the ground specified in paragraph 26(1)(c) of Schedule 6 to the Act, a statement of the matters in paragraph 5(5)(a) and (b) (which relate to payments of surplus rents etc) relevant to that ground.

(3) The specified respondent is the LHA.

**46.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 30 of Schedule 7 to the Act (appeal against LHA's decision or refusal to vary or revoke interim or final EDMO).

(2) The specified documents are-

- (a) where the application relates to a decision to vary an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 9 and 11 of Schedule 6 to the Act (as applied by paragraph 17 of Schedule 7);
- (b) where the application relates to refusal to vary an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 14 and 16 of that Schedule;
- (c) where the application relates to a decision to revoke an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 17 and 19 of that Schedule; and
- (d) where the application relates to refusal to revoke an interim or final EDMO, a copy of the LHA's notices under paragraphs 20 and 22 of that Schedule; and
- (e) in any case a copy of the interim or final EDMO (as the case may be).

(3) The specified respondent is the LHA.

**47.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 34(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol o dan adran 136(4) neu 138(3) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r iawndal sy'n daladwy i drydydd partiön am y tarfu a fu ar eu hawliau o ganlyniad i orchymyn rheoli anheddau gwag terfynol).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol (yn cynnwys y cynllun rheoli);
- (b) pan fo'r trydydd parti wedi gofyn am iawndal o dan adran 138 o'r Ddeddf copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag isadran (4) o'r adran honno; ac
- (c) datganiad yn rhoi manylion llawn-
  - (i) yr hawliau yr honnir y bu tarfu arnynt o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol; a
  - (ii) swm yr iawndal a hawlir oherwydd y tarfu hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

#### **Ceisiadau mewn perthynas â hysbysiadau gorlenwi**

**48.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 143(1) o'r Ddeddf (apêl gan berson sydd wedi'i dramgwyddo gan hysbysiad gorlenwi).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r hysbysiad gorlenwi, neu ddatganiad gan y ceisydd yn esbonio'r amgylchiadau sydd wedi peri na all y ceisydd ddarparu copi o'r hysbysiad hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**49.**-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 144(2) (apêl gan berson perthnasol yn erbyn gwrthodiad awdurdod tai lleol i ddirymu neu amrywio hysbysiad gorlenwi, neu yn erbyn methiant yr awdurdod tai lleol i ymateb mewn pryd i gais am ddirymu neu amrywio hysbysiad o'r fath).

(2) Y dogfennau penodedig yw-

- (a) copi o'r hysbysiad gorlenwi;
- (b) pan fu i'r awdurdod tai lleol wrthod amrywio hysbysiad gorlenwi, copi o benderfyniad yr awdurdod tai lleol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**47.**-(1) This paragraph applies to an application under paragraph 34(2) of Schedule 7 to the Act (appeal against LHA's decision under section 136(4) or 138(3) of the Act in respect of compensation payable to third parties for interference with rights in consequence of final EDMO).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the final EDMO (including the management scheme);
- (b) where the third party has requested compensation under section 138 of the Act, a copy of the LHA's notification of its decision to the third party in accordance with subsection (4) of that section; and
- (c) a statement giving full details of-
  - (i) the rights in respect of which it is claimed that there has been interference in consequence of the final EDMO; and
  - (ii) the amount of compensation claimed in respect of that interference.

(3) The specified respondent is the LHA.

#### **Applications in relation to overcrowding notices**

**48.**-(1) This paragraph applies to an application under section 143(1) of the Act (appeal by a person aggrieved by overcrowding notice).

(2) The specified document is a copy of the overcrowding notice, or a statement by the applicant explaining the circumstances by reason of which the applicant is not able to provide a copy of this notice.

(3) The specified respondent is the LHA.

**49.**-(1) This paragraph applies to an application under section 144(2) (appeal by relevant person against LHA's refusal to revoke or vary an overcrowding notice, or against failure by the LHA to respond in time to an application to revoke or vary it).

(2) The specified documents are-

- (a) a copy of the overcrowding notice;
- (b) where the LHA refused to vary an overcrowding notice, a copy of the LHA's decision.

(3) The specified respondent is the LHA.

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.